# Gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd: Ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd

Dogfen ymgynghori

14 Chwefror 2024

## Tabl Cynnwys


**1. Crynodeb gweithredol ..... 2**

1.1 Mae'r BBC yn cynnig lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd y BBC ar DAB+ 2

1.2 Gwerth cyhoeddus y newidiadau hyn ..... 3

1.3 Proses gymeradwyo reoleiddiol ..... 4

**2. Cyd-destun ein cynigion ..... 6**

2.1 Hanes byr radio cerddoriaeth ..... 6

2.2 Effaith ffrydio cerddoriaeth ..... 7

2.3 Mae darlledwyr radio yn y DU wedi ymateb i'r heriau hyn ..... 9

2.4 Sut mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar ymddygiad gwrando ar y radio yn y DU 10

**3. Cynigion y BBC ar gyfer gorsafoedd radio cerddoriaeth ar DAB+ ..... 13**

3.1 Rhesymeg gyffredinol dros y gorsafoedd newydd ..... 13

3.2 Estyniad DAB+ ar gyfer Radio 1 Dance ..... 17

3.3 Estyniad DAB+ newydd ar gyfer Radio 1 ..... 18

3.4 Estyniad DAB+ ar gyfer Radio 2 ..... 20

3.5 Estyniad DAB+ ar gyfer Radio 3 ..... 22

3.6 Dosbarthiad ..... 24

3.7 Cyllideb ..... 25

3.8 Amcangyfrif o'r nifer sy'n gwrando ar y gorsafoedd ..... 26

3.9 Amserlenni ar gyfer gweithredu'r newid arfaethedig ..... 27

**4. Darparu gwerth cyhoeddus ..... 28**

4.1 Cyflawni yn erbyn Cenhadaeth y BBC ..... 28

4.2 Ein Fframwaith Gwerth Cyhoeddus ..... 28

4.3 Ein damcaniaeth gwerth cyhoeddus ..... 29

4.4 Ymchwil a gynlluniwyd ..... 34

**5. Manylion pellach yr ymgynghoriad ..... 36**

5.1 Proses Prawf Budd y Cyhoedd ..... 36

5.2 Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ac asesiad o'r Gymraeg ..... 38

5.3 Cwestiynau ymgynghoriad y BBC ..... 39

5.4 Sut mae ymateb ..... 39

# 1. Crynodeb gweithredol

Mae'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn gwrando ar gerddoriaeth wedi newid yn sylfaenol dros y chwe degawd diwethaf – o finyl a chasetiau, i CDs, i lawrlwythiadau, i ffrydio. Drwy gydol y cyfnod hwn – ac yn enwedig ers lansio BBC Radio 1, Radio 2 a Radio 3 yn 1967 – mae radio wedi chwarae rhan hollbwysig yng ngherddoriaeth y DU, ac mae'n dal i chwarae rhan hollbwysig i gynulleidfaoedd, artistiaid a'r diwydiant.

Mae'r farchnad sain ehangach yn parhau i newid yn gyflym. Mae ffrydio cerddoriaeth, llwyfannau cymdeithasol ac esblygiad radio digidol wedi trawsnewid arferion gwrando yn ystod y degawd diwethaf. Mae cynulleidfaoedd nawr yn disgwyl mwy o ddewis a mwy o reolaeth dros eu profiad gwrando, gyda chynigion clir a phersonoli i helpu i ganfod cynnwys perthnasol. Er mwyn sicrhau gwerth i bob cynulleidfa, mae'n hanfodol bod y BBC yn parhau i esblygu mewn ymateb i newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd, er mwyn i gynulleidfaoedd sy'n cael llai gan y BBC ar hyn o bryd allu dod o hyd i gynnwys perthnasol y BBC a chael mwy o werth o Ffi'r Drwydded.

Mae'r ddogfen hon yn nodi cynigion y BBC i lansio gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd y BBC. Yn y ddogfen hon, rydyn ni'n nodi cyd-destun y farchnad, manylion ein cynigion a sut bydd y cynigion hyn yn cynhyrchu gwerth cyhoeddus. Rydyn ni'n gwahodd ymatebion gan yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb, yn arbennig ymatebion ynghylch gwerth cyhoeddus ac effaith y cynigion ar y farchnad.

## 1.1 Mae'r BBC yn cynnig lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd y BBC ar DAB+

Bydd y gorsafoedd yn rhan o esblygiad hollbwysig brandiau Radio 1, Radio 2 a Radio 3, gan guradu rhaglenni cerddoriaeth BBC Sounds o dan arweiniad lleisiau cyfarwydd iawn ochr yn ochr â chyflwynwyr newydd cyffrous y BBC. Nod ein cynigion yw gwneud mwy i gynulleidfaoedd iau a C2DE sydd ar hyn o bryd yn cael llai o werth gan y BBC, a diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well. Byddwn yn dod â chynulleidfaoedd yn agosach at genres a chyfnodau o gerddoriaeth maen nhw'n eu caru fwyaf, gyda chyd-destun, curadu ac adrodd straeon drwy gerddoriaeth y gall y BBC a'i archif unigryw yn unig ei wneud. Rydyn ni'n bwriadu defnyddio DAB+ fel ffordd gost-effeithiol o gyrraedd ein cynulleidfa darged, gan ddangos buddsoddiad creadigol y BBC mewn cynnwys cerddoriaeth unigryw i gynulleidfa ehangach i wella'r broses o ddarganfod, ac annog gwrandawyr i symud i BBC Sounds, lle gallant fwynhau profiad gwell a mwy personol.

Y gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd arfaethedig hyn yw:

- **Radio 1 Dance**, sydd wedi bod yn ffrydio ar BBC Sounds ers mis Hydref 2020, ond sydd wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i guradu cynnwys sy'n bodoli'n barod yn unig. Rydyn ni'n cynnig ail-lansio hon fel gorsaf radio, gan dargedu cynulleidfaoedd 15 i 34 oed, gyda chynnig cynnwys estynedig a fydd yn cynnwys comisiynau newydd, gan ddarparu llwyfan mwy i ddangos buddsoddiad creadigol y BBC mewn cerddoriaeth ddawns, cefnogi datblygiad artistiaid newydd yn y DU, ac adlewyrchu'r sîn ddawns i gynulleidfa ehangach.

- Bydd **estyniad Radio 1 ychwanegol** yn cynnig y cyfle i gynulleidfaoedd iau 15-34 oed gael archwilio'r traciau a'r artistiaid eiconig sydd wedi siapio'r ddau ddegawd diwethaf yn fanwl, gan eu helpu i ddarganfod ac ailddarganfod amrywiaeth eang o gerddoriaeth ac artistiaid sy'n cael eu cefnogi gan Radio 1. Bydd yn darparu gorsaf i bobl ifanc a fydd yn edrych yn ôl ar gerddoriaeth drwy lais talent ifanc – y tu ôl i'r microffon ac o'i flaen.
- **Estyniad ar gyfer Radio 2** sy'n rhoi cipolwg unigryw ar ganeuon pop sy'n camu'n ôl i'r gorffennol, gan edrych yn fanwl ar gerddoriaeth ac archif unigryw'r BBC yn bennaf o'r 1950au, y 1960au a'r 1970au. Mae'r estyniad yn targedu gwrandawyr 55 oed a hŷn sy'n chwilio am brofiad mwy cynhwysfawr o gamu'n ôl i'r gorffennol na'r hyn y mae amserlen Radio 2 a'r farchnad radio ehangach yn gallu eu cynnig ar hyn o bryd, a chynulleidfaoedd o grwpiau C2DE sy'n cael llai o werth gan y BBC ond sy'n gwerthfawrogi brand Radio 2 a'i gyflwynwyr a churaduron dibynadwy.
- **Estyniad ar gyfer Radio 3** sy'n cynnig profiad cerddoriaeth glasurol dawel a hamddenol sy'n cyfateb i arferion dyddiol gwrandawyr, yn eu helpu i ddianc rhag pwysau a straen bywyd bob dydd a chefnogi eu lles. Bydd yn cynnwys amrywiaeth eang o gerddoriaeth glasurol, cyfarwydd a newydd, wedi'i hanelu at gynulleidfaoedd 35 oed a hŷn, ac yn cynnwys cerddoriaeth gan Gerddorfeydd a Chorau'r BBC ochr yn ochr â'r perfformwyr a'r ensembles gorau o bob cwr o'r DU a thu hwnt.

I nodi, mae'r BBC hefyd yn cynnig ail-lansio ffrwd Radio 1 Dance a lansio tair ffrwd ychwanegol sy'n ymestyn y brand fel ffrydiau Sounds-yn-unig ar BBC Sounds yn 2024, yn amodol ar asesiad perthnasedd – mae hon yn broses reoleiddio ar wahân i'r Prawf Budd y Cyhoedd hwn.

## 1.2 Gwerth cyhoeddus y newidiadau hyn

Rydyn ni o'r farn y bydd lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd ar DAB+, gan greu pedwar Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU, yn cyfrannu at genhadaeth y BBC drwy geisio gwasanaethu pob cynulleidfa yn well a chyflawni'n benodol y trydydd, y pedwerydd a'r pumed diben cyhoeddus, hynny yw, darparu allbwn o ansawdd uchel ar draws amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnig gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cymunedau'r DU, buddsoddi yn yr economïau creadigol a chyfrannu at eu datblygiad, ac adlewyrchu diwylliant y DU i'r byd.

Yn benodol, rydyn ni o'r farn y bydd ein cynigion ar gyfer gorsafoedd radio cerddoriaeth yn cynnig:

- Gwell gwerth i bob cynulleidfa (yn enwedig y rheini sy'n cael llai o werth o radio cerddoriaeth y BBC ar hyn o bryd) – bydd y gorsafoedd yn rhan o esblygiad hollbwysig brandiau Radio 1, Radio 2 a Radio 3 i wella gwerth i gynulleidfaoedd. Bydd y gorsafoedd yn targedu cynulleidfaoedd iau a C2DE sydd yn cael llai o werth gan y BBC ar hyn o bryd, yn ogystal â diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well. Bydd y gorsafoedd newydd hefyd yn annog y gwrandawyr i symud i BBC Sounds lle gallant fwynhau profiad mwy cyfoethog a phersonol, a darganfod ystod lawn arlwy cynnwys y BBC;
- Ystod ac amrywiaeth o gerddoriaeth – bydd pob un o'r gorsafoedd newydd yn cynnwys rhaglenni cerddoriaeth o ansawdd uchel sy'n cael eu harwain gan dalent,

gan chwarae amrywiaeth ehangach o draciau a chyfansoddwyr na'r hyn sydd ar y farchnad, a dod â chynulleidfaoedd yn agosach at genres a chyfnodau o gerddoriaeth maen nhw'n eu caru fwyaf;

- Cerddoriaeth newydd – bydd Radio 1 Dance yn parhau i gefnogi artistiaid a DJs newydd a'r gerddoriaeth ddawns ddiweddaraf i'w rhyddhau, tra bydd yr estyniad ar gyfer Radio 3 yn cynnwys darnau sydd newydd eu rhyddhau a pherfformiadau o ddarnau clasurol yn ogystal â chyfansoddiadau newydd;
- Cerddoriaeth a thalentau o Brydain – bydd y gorsafoedd newydd yn rhoi ffocws i artistiaid o'r DU o ran cyfran y traciau a fydd yn cael eu chwarae. Byddwn yn comisiynu rhaglenni newydd ar gyfer y gorsafoedd newydd, a thrwy ganolbwyntio ar gerddoriaeth arbenigol Ddwys, cerddoriaeth Newydd a cherddoriaeth y DU, byddwn yn codi proffil artistiaid llai adnabyddus nad ydynt wedi cael eu darlledu cymaint;
- Siarad – bydd y gorsafoedd yn cynnig cyd-destun, curadu ac adrodd straeon-drwy-gerddoriaeth i gynulleidfaoedd y gall dim ond y BBC a'i archif unigryw o glipiau, cyfweliadau a pherfformiadau byw ei wneud;
- Cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig – bydd y gorsafoedd newydd hefyd yn adlewyrchu'r calendr creadigol drwy gydol y flwyddyn, gan roi sylw i'r digwyddiadau byw a'r perfformiadau unigryw yn eu genres, neu ddefnyddio archif unigryw'r BBC o gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig;
- Cefnogaeth ar gyfer arloesi technolegol mewn darlledu radio – mae'n debygol y bydd cyfraniad y BBC mewn DAB+ yn cefnogi datblygiad pellach radio digidol yn y DU.

## 1.3 Proses gymeradwyo reoleiddiol

Mae'r Cytundeb Fframwaith yn datgan mai dim ond ar ôl iddo gynnal Prawf Budd y Cyhoedd y gall y BBC wneud newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y DU, ac ar ôl iddo benderfynu bod y Prawf wedi'i fodloni a bod Ofcom wedi cymeradwyo'r newid. Diffinnir newid sylweddol fel "Gwasanaeth Cyhoeddus y DU newydd" neu "unrhyw newid i Wasanaeth Cyhoeddus y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol".[1]

Byddai'r bwriad o lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd ar DAB+ yn golygu lansio pedwar Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. O'r herwydd, mae'r newid yn gofyn am Brawf Budd y Cyhoedd.

Fel rhan o'r broses hon, rydyn ni'n ymgynghori'n gyhoeddus ar y cynigion hyn er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau. Rydyn ni'n gwahodd ymatebion gan yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb, yn arbennig ymatebion ynghylch gwerth cyhoeddus ac effaith y cynigion ar y farchnad. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhedeg am chwe wythnos o 14 Chwefror tan 27 Mawrth 2024. Yn y cyfamser, byddwn yn cynnal dadansoddiad pellach er mwyn asesu'r gwerth cyhoeddus ac effaith y cynigion hyn ar y farchnad.

---

[1] Cytundeb Fframwaith y BBC, cymalau 7(6) a 7(7).

Byddwn yn penderfynu ar ein cynigion terfynol ar sail yr ymchwil a’r dadansoddiad hwn ac adborth gan randdeiliaid. Os bydd Bwrdd y BBC yn penderfynu bod y cynigion hyn yn bodloni Prawf Budd y Cyhoedd, byddwn yn anfon argymhelliad y Prawf Budd y Cyhoedd a’r dystiolaeth ategol at Ofcom. Ar y pwynt hwn, byddwn yn cyhoeddi'r argymhelliad, yr ymchwil a’r dadansoddiad ar gyfer y Prawf Budd y Cyhoedd. Rydyn ni’n disgwyl y bydd hyn yn digwydd yn yr haf.

I nodi, mae’r BBC hefyd yn cynnig ail-lansio ffrwd Radio 1 Dance a lansio tair ffrwd ychwanegol sy’n ymestyn y brand fel ffrydiau Sounds-yn-unig ar BBC Sounds yn 2024, yn amodol ar asesiad perthnasedd – mae hon yn broses reoleiddio ar wahân i’r Prawf Budd y Cyhoedd hwn.

# 2. Cyd-destun ein cynigion

Yn yr adran hon, rydyn ni'n egluro'r ffactorau allweddol sy'n sail i'n cynigion, gan gynnwys y datblygiadau technolegol a datblygiadau yn y farchnad sy'n sbarduno newid mewn ymddygiad cynulleidfaoedd, a hanes a strategaethau'r BBC a radio masnachol.

Mae'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn gwrando ar gerddoriaeth wedi newid yn sylweddol dros y chwe degawd diwethaf – o finyl, i CDs, i lawrlwythiadau, i ffrydio. Ond ers lansio BBC Radio 1, Radio 2 a Radio 3 yn 1967, mae radio wedi chwarae rhan hollbwysig yng ngherddoriaeth y DU, ac mae'n dal i chwarae rhan hollbwysig i gynulleidfaoedd, artistiaid a'r diwydiant.

## 2.1 Hanes byr radio cerddoriaeth

Ym mis Medi 1967, diweddarodd y BBC ei bortffolio radio drwy lansio BBC Radio 1, Radio 2, Radio 3 a Radio 4. Cafodd Radio 1 ei ddylunio fel gwasanaeth cerddoriaeth bop newydd sbon i gymryd lle'r gorsafoedd radio answyddogol a oedd wedi'u gwahardd, tra bod Radio 2 a 3 wedi disodli'r gwasanaethau Light a Third.

Gwasanaeth radio masnachol cyntaf y DU oedd LBC, ac yna Capital Radio. Lansiwyd y ddau ym mis Hydref 1973 ac roeddent yn gwasanaethu ardal Llundain Fwyaf, gydag LBC yn cynnig newyddion a gwybodaeth a Capital yn cynnig cerddoriaeth ac adloniant. Lansiwyd 16 gorsaf fasnachol leol arall ar draws Glasgow (Clyde), Birmingham (BRMB) a Manceinion (Piccadilly) ganol y 1970au. Parhaodd rhagor o lansiadau drwy'r 1980au, lle'r oedd 'hollti amledd' yn golygu bod gweithredwyr masnachol yn dosbarthu eu gwasanaethau i gynulleidfa ieuengach ar FM a gorsafoedd i gynulleidfa hŷn ar AM.

Ym mis Medi 1992, Classic FM oedd yr orsaf radio fasnachol genedlaethol gyntaf i gael ei lansio, gan ddilyn gyda Virgin 1215 ym mis Ebrill 1993. Parhaodd radio masnachol i dyfu drwy'r 1990au, gyda rhagor o orsafoedd rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu lansio, gan gynnwys Heart ac XFM.

Yn 1995, lansiodd y BBC ei wasanaethau radio cenedlaethol (Radio 1, Radio 2, ac ati) ar DAB. Yn fuan wedi hynny, dechreuodd y gorsafoedd DAB masnachol cyntaf yn Lloegr hefyd ac ar draws rhannau o Gymru a'r Alban. Roedd Classic FM a Virgin Radio ymhlith y cyntaf i ehangu i DAB, ynghyd â dwy orsaf ddigidol newydd, Core a Planet Rock. Yn 2002, lansiodd y BBC ei orsafoedd cerddoriaeth cenedlaethol cyntaf ar gyfer DAB yn unig – 1Xtra, 6 Music ac Asian Network cenedlaethol (ar ôl lansio yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr yn 1989).

Cyfunwyd radio masnachol yn sylweddol yn y 2000au hefyd. Ffurfiwyd Global Media and Entertainment (Global) yn 2007, gan brynu Chrysalis Radio gyntaf (Heart, Galaxy, The Arrow) a blwyddyn yn ddiweddarach, GCAP Media (gan gynnwys Capital a Classic FM). Yn 2012, prynodd Global GMG (Real a Smooth). Yn yr un modd, yn 2008, prynodd Bauer Media Group ("Bauer") Emap (Kiss, Magic, Kerrang! a dwsinau o orsafoedd lleol ledled Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon). Ers hynny, mae Bauer wedi parhau i brynu: Orion Media (2016), Jazz FM (2018), ac yn 2019, Lincs FM Group, Celador, gorsafoedd lleol yn eiddo i Wireless Group, ac UKRD. Ym mis Medi 2023, roedd Global yn cyfrif am 23% a Bauer yn cyfrif am 21% o'r holl radio a wrandewir arno yn y DU (h.y. gan gynnwys y BBC).


Gan ystyried y farchnad fasnachol yn unig, mae gan Global 43% a Bauer 38% o'r radio a wrandewir arno.

## 2.2 Effaith ffrydio cerddoriaeth

Ers lansio gwasanaethau fel Spotify, Apple Music ac Amazon Music, ffrydio cerddoriaeth yw'r ffactor allweddol sy'n sbarduno newidiadau sylweddol mewn ymddygiad gwrando a disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran cerddoriaeth, yn enwedig gyda chynulleidfaoedd dan 35 oed.

Er mai radio byw yw'r math mwyaf poblogaidd o sain o hyd, gydag 88% o oedolion yn gwrando am gyfartaledd o 20 awr yr wythnos, mae gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth wedi tyfu'n gyflym, ac erbyn hyn maent yn cyrraedd 75% o gynulleidfaoedd 15-34 oed bob wythnos o'i gymharu â 59% yn 2018.[2] Mae amser gwrando hefyd wedi newid yn sylweddol tuag at ffrydio. Mae cerddoriaeth wedi'i ffrydio bellach yn cyfrif am 21% o'r gerddoriaeth y gwrandewir arno ar gyfer pob oedolyn, a 50% ar gyfer pobl ifanc 15-34 oed. Erbyn hyn, dim ond 30% o'u hamser gwrando mae'r grŵp oedran iau yn ei dreulio gyda radio, o'i gymharu â 64% ar gyfer yr holl oedolion.

**Ffigur 1: Cyfran yr amser a dreulir bob wythnos ar unrhyw sain: oedolion 15+ v 15-34 oed**




*Ffynhonnell: Ofcom, Cyfryngau'r Genedl, 2023*

Spotify yw'r ap ffrydio sain digidol mwyaf poblogaidd yn y DU sy'n cyrraedd tua 12.5 miliwn o ddefnyddwyr wythnosol yn y DU, ac amcangyfrifir bod gwasanaethau

---

[2] Cyfryngau'r Genedl 2023, Ofcom, t.56

tanysgrifio yn unig Amazon Music ac Apple Music yn cyrraedd 3.6 miliwn a 2.6 miliwn yn y drefn honno.[3]

Mae ffrydio hefyd wedi sbarduno galw newydd am ddyfnder ac ehangder mewn cerddoriaeth. Mae cyfryngau cymdeithasol yn rhoi ffyrdd arloesol i bobl sy'n mwynhau cerddoriaeth ryngweithio â'u hoff artistiaid a'u dilyn, ac mae ffrydio wedi galluogi cynulleidfaoedd iau yn benodol i ddarganfod cerddoriaeth o'r 60 mlynedd diwethaf sy'n newydd iddyn nhw, a hynny drwy argymhellion a rhestrau chwarae wedi'u curadu. Canfu adroddiad gan Ffederasiwn Rhyngwladol y Diwydiant Ffonograffig (IFPI) fod pobl sy'n mwynhau cerddoriaeth, ar gyfartaledd, bellach yn gwrando ar fwy nag wyth genre gwahanol o gerddoriaeth, a nododd yr adroddiad fod dros 700 o genres gwahanol yn cael eu clywed,[4] gyda genres newydd yn parhau i gael eu creu gan bobl sy'n mwynhau cerddoriaeth mewn cymunedau ar-lein a gwasanaethau ffrydio sy'n cyfateb i hwyliau ac achlysuron gwrando sy'n newid drwy'r amser.


Ond er bod mwy o gerddoriaeth newydd yn cael ei rhyddhau nawr nag erioed o'r blaen, (mae 100,000 o draciau newydd yn cael eu llwytho i fyny i wasanaethau ffrydio bob dydd[5]), mae faint o gerddoriaeth newydd sydd ymysg senglau ac albymau mwyaf poblogaidd y DU sy'n 'gwerthu' fwyaf yn lleihau,[6] gan gyfeirio at bwysigrwydd parhaus arddangos a hyrwyddo artistiaid a thalent newydd yn y DU i gynnal sector creadigol sy'n ffynnu.

Ac er gwaethaf twf ffrydio cerddoriaeth, radio yw'r ffynhonnell fwyaf poblogaidd o hyd ar gyfer darganfod cerddoriaeth ymysg holl gynulleidfaoedd y DU. Radio yw'r ail fwyaf poblogaidd ar gyfer pobl dan 35 oed ar ôl ffrydio, ac mae cyfryngau cymdeithasol hefyd bellach yn rhan bwysig o ddarganfod.

---

[3] MIDAS Hydref 2023 – defnydd wythnosol ffrydio cerddoriaeth a honnir (heb gynnwys podlediadau)
[4] Engaging with Music 2023, IFPI, t.6, t.17
[5] It's happened:100,000 tracks are now being uploaded to streaming services like Spotify each day, Music Business Worldwide, Hydref 2022
[6] Female artists dominated 2023 music charts – but new acts are being squeezed out, BBC News, Ionawr 2023

**Ffigur 2: Ffynonellau ar gyfer darganfod cerddoriaeth newydd**




*Siart – MIDAS Hydref 2023*

## 2.3 Mae darlledwyr radio yn y DU wedi ymateb i'r heriau hyn

Mae oriau a chyrhaeddiad radio cyffredinol yn y DU yn parhau i fod yn gryf, gyda 49.5 miliwn o oedolion yn y DU yn gwrando ar y radio bob wythnos. Wrth ystyried y cynnydd yn y boblogaeth, mae canran yr oedolion sy'n gwrando bob wythnos wedi aros yn gymharol sefydlog ar 88% yn 2023 o'i gymharu â 91% yn 2010.[7] Mae hyn i raddau helaeth oherwydd y strategaethau a ddilynir gan ddarlledwyr radio yn y DU, y BBC a radio masnachol fel ei gilydd.

### *2.3.1 Mae darlledwyr radio Prydain wedi lansio eu gwasanaethau ar-lein eu hunain*

Yn 2018, lansiwyd BBC Sounds gan y BBC i ddisodli ein hapiau BBC iPlayer Radio a BBC Music.[8] BBC Sounds, gwasanaeth ffrydio sain digidol, yw cartref ar-lein portffolio radio'r BBC, ochr yn ochr â mwy o ddewis o gynnwys podlediadau a cherddoriaeth o ansawdd uchel, gyda mwy o reolaeth dros y profiad gwrando, a nodweddion curadu a phersonoleiddio sy'n ei gwneud yn haws dod o hyd i deitlau perthnasol. Mae'r strategaeth hon wedi cynnwys datblygu rhaglenni cerddoriaeth a chymysgedd o gerddoriaeth ar-alw, dan arweiniad talent, a nodweddion curadu newydd fel Back To Back Sounds, yn ogystal â chyflwyno ffrydiau Radio 1 Dance a Radio 1 Relax yn 2020 a 2021 yn y drefn honno.

---

[7] RAJAR Ch3 2023

[8] Roedd BBC iPlayer yn cynnwys radio gwrando eto pan gafodd ei lansio yn 2007. Yn 2012, lansiwyd BBC iPlayer Radio fel ap ar wahân. Yn 2016, lansiwyd ap BBC Music a oedd yn galluogi defnyddwyr i wrando ar restr chwarae a chlipiau cerddoriaeth.

Lansiwyd Global Player gan Global ym mis Tachwedd 2017, gan ddarparu mynediad ar-lein at ei orsafoedd radio byw (ei orsafoedd radio sy'n darlledu a'i orsafoedd / ffrydiau rhyngrwyd yn unig), yn ogystal â radio gwrando eto, podlediadau, rhestrau chwarae a fideos. BBC Sounds yw'r ap sain digidol mwyaf ymysg chwaraewyr sain y DU, gan gyrraedd 4.8 miliwn o ddefnyddwyr wythnosol.[9]

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Bauer gynlluniau i lansio ei ap ei hun o'r enw Rayo, gan ddisodli apiau brand presennol Bauer. Mae'n dwyn ynghyd holl wasanaethau radio, rhestrau chwarae a phodlediadau Bauer, ochr yn ochr â gwasanaethau radio drwy danysgrifiad, sy'n cynnwys fersiynau heb hysbysebion o orsafoedd radio byw, yn ogystal â 100 o orsafoedd unigryw ar-lein yn unig i danysgrifwyr. Mae Rayo bellach wedi cael ei lansio, ac ar gael i ddefnyddwyr iOS yn unig ar hyn o bryd.[10]

### *2.3.2 Gorsafoedd lleol masnachol sy'n rhwydweithio o dan frandiau cenedlaethol*

Mae darlledwyr radio masnachol hefyd wedi symleiddio ac ategu eu cynnig i wrandawyr. Mae gofynion rheoleiddio symlach o ran fformatau gorsafoedd masnachol a chanllawiau'n newid ynghylch cynnwys lleol wedi galluogi'r sector radio masnachol i 'rwydweithio' rhaglenni ar draws gorsafoedd, a rhannu rhaglenni ar draws rhanbarthau. Erbyn hyn, mae gan frandiau Heart a Capital 46 a 23 o orsafoedd â brand lleol, sy'n cynnwys yr un amserlen a chynnwys i raddau helaeth â gorsafoedd DAB cenedlaethol Heart a Capital, ac eithrio sioe amser gyrru ranbarthol yn ystod yr wythnos a diweddariadau newyddion lleol.[11] Mae llawer o orsafoedd masnachol lleol hefyd wedi ail-frandio o dan frandiau cenedlaethol – mae gan Greatest Hits Network Bauer gyfanswm o 66 gorsaf erbyn hyn.[12]

### *2.3.3 Ehangu gorsafoedd DAB masnachol cenedlaethol, a newid i DAB+*

Mae'r modd mae sbectrwm DAB cenedlaethol yn fwy hygyrch wedi arwain at grwpiau radio masnachol yn ehangu eu portffolios radio cenedlaethol drwy lansio dwsinau o orsafoedd radio cerddoriaeth digidol-yn-unig cenedlaethol, gan dargedu cyfnodau a genres penodol gyda chynigion cerddoriaeth penodol i wella'r broses ddarganfod. Mae llawer o orsafoedd masnachol hefyd wedi cael eu newid o DAB safonol i DAB+, gan ei fod yn fwy effeithlon, gan ganiatáu i fwy o wasanaethau gael eu darlledu ar yr un plethiad gyda'r un ansawdd sain. Erbyn hyn, mae 53 o orsafoedd radio cerddoriaeth masnachol digidol-yn-unig cenedlaethol ar DAB/DAB+ yn y DU, o'i gymharu ag 11 yn 2018.[13]

## 2.4 Sut mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar ymddygiad gwrando ar y radio yn y DU


Mae'r cyfuniad o'r holl effeithiau hyn wedi cael effaith sylweddol ar wrando ar y radio yn y DU, a rôl y BBC yn y farchnad.

---

[9] Cyfrifiadau wythnosol cyfartalog BBC Sounds ar sail data dadansoddeg y BBC Ch3 2023.
[10] Magic and Greatest Hits Radio become latest Bauer brands to launch premium subscription service, Bauer Media Group, Chwefror 2023
[11] RAJAR Ch3 2023
[12] Where is tomorrow's listener? UK radio in 2023, Enders Analysis, Medi 2023
[13] RAJAR Ch3 2023,dadansoddiad y BBC

Gyda'i gilydd, mae radio masnachol wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed yn 2023 gyda 39.3 miliwn, 7.5 miliwn yn fwy na radio'r BBC. Gyda'i gilydd, roedd radio masnachol hefyd yn fwy na chyfran radio'r BBC am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2022.[14]


**Ffigur 3: Radio'r BBC vs Radio Masnachol, Tuedd cyrhaeddiad, 2013-2023**




*Ffynhonnell: RAJAR3*

[14] RAJAR Ch3 2023

**Ffigur 4: Radio’r BBC vs Radio Masnachol, Cyfran cyrhaeddiad, 2013-2023**




*Ffynhonnell: RAJAR*

Mae hefyd yn amlwg bod radio masnachol wedi bod yn perfformio’n well gyda grwpiau iau a’r rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Ymysg cynulleidfaoedd 35-54 oed, bu cynnydd o 8.2% yn y cyrhaeddiad ar gyfer radio masnachol o’i gymharu â gostyngiad o 16.5% ar gyfer radio’r BBC ers 2013.[15] Ymysg pobl ifanc 15-34 oed, mae gan radio masnachol gyrhaeddiad o 11.2 miliwn, 3.9 miliwn yn fwy na Radio'r BBC, ac mae’n cyrraedd bron i ddwy ran o dair o’r boblogaeth 15-34 bob wythnos (vs 42.6% ar gyfer y BBC). O ran cyfran yr oriau radio cerddoriaeth, mae gan y BBC 29% o’r amser a dreulir gan unigolion 16-34, o’i gymharu â 71% ar gyfer radio masnachol.[16] Yn yr un modd, ymysg grwpiau economaidd-gymdeithasol is, mae cynulleidfaoedd C2DE yn cynrychioli 38% o gynulleidfaoedd Radio’r BBC, a 44% o gynulleidfaoedd radio masnachol.[17]

[15] RAJAR Ch3 2023 vs. Ch3 2013
[16] RAJAR Ch3 2023

# 3. Cynigion y BBC ar gyfer gorsafoedd radio cerddoriaeth ar DAB+

Mewn ymateb i'r heriau yn y farchnad a'r newid yn ymddygiad cynulleidfaoedd a amlinellir yn Adran 2, rydyn ni'n cynnig cynyddu gwerth i gynulleidfaoedd drwy lansio gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd ar DAB+. Isod, rydyn ni'n nodi'r rhesymeg gyffredinol dros y newidiadau i bortffolio ein gorsafoedd radio ac elfennau allweddol penodol ein cynigion ar gyfer:

- Radio 1 Dance
- Estyniad Radio 1 newydd
- Estyniad Radio 2
- Estyniad Radio 3

## 3.1 Rhesymeg gyffredinol dros y gorsafoedd newydd

Nid yw'r BBC wedi newid ei bortffolio o orsafoedd radio yn sylweddol ers iddo lansio 1Xtra, Asian Network, Radio 4 Extra, 5 Sports Extra a 6 Music fel gorsafoedd DAB yn 2002.

Mae ein cynnig i lansio pedair gorsaf gerddoriaeth DAB+ newydd yn ymateb i'r twf sylweddol yn nifer y gorsafoedd sy'n cystadlu i wasanaethu gwrandawyr a'r newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd, sy'n cael eu siapio gan ffrydio cerddoriaeth ar-alw ac ymateb y sector radio masnachol i'r newid ymddygiad hwnnw. Nod ein cynigion yw datblygu ein cynnig cerddoriaeth i wneud mwy i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol sy'n cael llai o werth gan y BBC (yn enwedig cynulleidfaoedd iau a C2DE), a diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well. Yn olaf, bydd y cynigion hyn hefyd yn chwarae rhan hanfodol a chost-effeithiol o ran annog y newid digidol i BBC Sounds, lle gall cynulleidfaoedd fwynhau swyddogaethau gwrando byw ychwanegol, a phrofiad mwy cyfoethog a mwy personol.


### *3.1.1 Gwasanaethu cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol*

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i ni wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd a neilltuol o safon sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.[18] Yn ei adroddiadau blynyddol ar y BBC, mae Ofcom – er ei fod yn cydnabod ymdrechion y BBC i ymateb – wedi codi pryderon yn gyson ynghylch perfformiad y BBC gyda chynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol is a chynulleidfaoedd iau.

Fel y gwelir o'r siart isod, mae portffolio presennol gorsafoedd radio'r BBC ar y cyfan yn gwyro at wrandawyr hŷn a mwy ABC1 na radio masnachol a phoblogaeth y DU. Dim ond BBC Radio 1, 1Xtra ac Asian Network sy'n denu cynulleidfaoedd C2DE o gymharu â phoblogaeth y DU.

[18] Siarter Frenhinol y BBC, erthygl 5

**Ffigur 5: Proffil oed a chymdeithasol-economaidd gorsafoedd cerddoriaeth y BBC a Radio Masnachol**




*Ffynhonnell: RAJAR*

Bydd y gorsafoedd cerddoriaeth newydd hyn sy’n cael eu curadu o amgylch genres a chyfnodau penodol o gerddoriaeth yn helpu’r cynulleidfaoedd hyn i ddod o hyd i’r gorau o’r BBC drwy gynigion sydd wedi’u brandio’n glir, gan adeiladu ar eu hoff frandiau radio cerddoriaeth y BBC, sydd ar gael ar DAB+ ac ar-lein drwy BBC Sounds.

### 3.1.1.1 Grwpiau economaidd-gymdeithasol is

Yn ei chweched adroddiad blynyddol ar berfformiad y BBC, dywedodd Ofcom: “Mae cynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E yn dal yn llai bodlon â pherfformiad y BBC na’r rheini o grwpiau eraill”.[19] Nododd Ofcom hefyd yn ei Adolygiad o Gynulleidfaoedd y BBC ynghylch grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E ei bod yn rhaid i’r BBC “barhau i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o ddod â chynnwys i gynulleidfaoedd ar draws ei holl lwyfannau.”[20]

O ran defnyddio sain, canfu dadansoddiad Ofcom fod grwpiau D ac E yn fwy tebygol o dreulio mwy o’u hamser sain wythnosol ar radio byw o’i gymharu â grwpiau eraill (64% vs 56% ar gyfer grwpiau AB), ac yn fwy tebygol o wrando drwy setiau radio traddodiadol nag ar-lein. Mae grwpiau D ac E yn fwy tebygol o wrando ar radio masnachol (67%) yn wythnosol na’r BBC (46%), ac mae’n well ganddynt wrando ar gerddoriaeth yn hytrach na radio siarad.

Yn benodol, bydd estyniad Radio 2 yn targedu cynulleidfaoedd C2DE dros 55 oed, tra bydd Radio 1 Dance a’r estyniad Radio 1 newydd yn targedu cynulleidfaoedd C2DE o dan 35 oed.

[19] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2022-23, Ofcom, t.4
[20] Adolygiad Cynulleidfaoedd y BBC: Deall pa ffactorau allai ysgogi lefelau bodlonrwydd is ymysg grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E, Ofcom, t.3

### 3.1.1.2 Cynulleidfaoedd iau

Mae Ofcom wedi codi pryderon yn gyson ynghylch pa mor dda mae'r BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd iau. Yn ei chweched adroddiad blynyddol ar y BBC, dywedodd Ofcom: "Bu pryderon hefyd ynghylch sut mae'r BBC yn parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd iau ac yn ein Hadroddiadau Blynyddol blaenorol ar y BBC, rydyn ni wedi nodi pa mor bwysig ydyw ei fod yn pwyso a mesur ei strategaethau i gyrraedd y cynulleidfaoedd hyn."[21]

Mae cynulleidfaoedd iau 15-34 oed nawr yn fwy tebygol o ffrydio cerddoriaeth na gwrando ar radio byw, gyda 30% o'u hamser bellach yn cael ei dreulio gyda radio byw mewn wythnos gyffredin, o'i gymharu â 50% gyda gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth.[22] Ond mae radio'r DU yn dal i gyrraedd 13.3 miliwn o gynulleidfaoedd o dan 35 oed bob wythnos, a dyma'r math mwyaf poblogaidd o gynnwys yn y car lle mae DAB/DAB+ yn dal yn hanfodol tra bod lefelau cysylltedd ar-lein yn is.[23] Mae pobl dan 35 oed hefyd yn ffafrio radio cerddoriaeth o'i gymharu â radio siarad, gan dreulio 91% o'u hamser gwrando ar y radio gyda radio cerddoriaeth.[24] Ond mae Radio'r BBC yn cyrraedd llai o lawer o gynulleidfaoedd iau, gan gyrraedd 42.6% o gynulleidfaoedd 15-34 oed o'i gymharu â 56.2% o gynulleidfaoedd 15+.

Mae BBC Radio 1 a Radio 2 yn chwarae rhan hollbwysig yn arlwy'r BBC. Mae ganddynt y cyfuniad unigryw o raddfa a natur arbennig sy'n cynnig llawer iawn o werth cyhoeddus i gynulleidfaoedd a sector creadigol y DU, ond sydd hefyd yn cyrraedd miliynau o gynulleidfaoedd iau a C2DE sydd, mewn cymhariaeth, yn cael llai o werth gan weddill y BBC. Mae 52% o gynulleidfa wythnosol Radio 1 yn unigryw i Radio 1 – dyma eu hunig orsaf radio'r BBC. Mae'r gyfran hon yn codi i 61% wrth edrych ar gynulleidfaoedd Radio 1 sy'n 15-34 oed. Ar gyfer Radio 2, mae 45% o'i chynulleidfa yn unigryw, gan godi i 51% wrth edrych ar gynulleidfaoedd Radio 2 o grwpiau C2DE.[25] Mae'n hanfodol ein bod yn esblygu sut mae Radio 1 a Radio 2 yn darparu eu harlwy cerddoriaeth, er mwyn gwarchod y gwerth cyhoeddus hwn. Mae perygl y bydd gwneud mwy ar Radio 1 a Radio 2 yn lleihau gwerth cyhoeddus, drwy or-gymhlethu'r arlwy i gynulleidfaoedd a chael effaith negyddol ar allu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys perthnasol yn hawdd.

O ran chwaeth gerddoriaeth, mae Dawns/Dawns Electronig/House yn genre sy'n gor-fynegeio ymysg cynulleidfaoedd 15-34 oed, gyda'i gilydd (yn cynnwys ffrydio, casgliadau personol a radio), ac ar gyfer genres y gwrandewir arnynt ar y radio. Yn yr un modd, mae cerddoriaeth o'r 2000au a 2010au yn gor-fynegeio ar gyfer cynulleidfaoedd 15-34 oed, a cherddoriaeth Dawns a 00au/10au yn gor-fynegeio ar gyfer cynulleidfaoedd C2DE o dan 35 oed. Mae cerddoriaeth o'r 1960au a'r 1970au yn gor-fynegeio ar gyfer cynulleidfaoedd 55+ C2DE.[26]

Mae'r ffactorau hyn wedi cyfrannu at y broses o ddewis gorsafoedd a thargedu cynulleidfaoedd ar gyfer ein cynigion, i wneud mwy ar gyfer y cynulleidfaoedd iau a C2DE

---

[21] Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2022-23, Ofcom, t.4
[22] Cyfryngau'r Genedl 2023, Ofcom, t.56
[23] RAJAR Ch2 2023; MIDAS Hydref 2023
[24] RAJAR Ch3 2023
[25] RAJAR, pwysau 6 mis 2023
[26] IPA Touchpoints, 2023

hyn sydd ar hyn o bryd yn cael llai o werth gan y BBC, gyda chynigion penodol, gan adeiladu ar frandiau cerddoriaeth y BBC sydd â'r cysylltiad cryfaf â'r cynulleidfaoedd hyn.

### *3.1.2 Gwasanaethu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well*

Mae ein hymchwil wedi canfod bod cynulleidfaoedd modern yn teimlo nad yw'r BBC yn gwasanaethu hwyliau ac anghenion penodol yn ddigonol.[27] Yn benodol, roedd yr ymchwil hwn yn nodi bod angen arlwy fwy hamddenol a diddan ar gynulleidfaoedd. Yn benodol, canfu'r ymchwil:

- Yn y rhan fwyaf o achlysuron ymlacio, mae cerddoriaeth wrth wraidd y profiad ac yn ddylanwad ar y dewis o orsaf, yn fwy nag unrhyw beth arall
- Mae gwrandawyr eisiau cerddoriaeth gyfarwydd nad yw'n heriol yn ystod adegau ymlacio, yn hytrach na cheisio dysgu neu ddarganfod cerddoriaeth newydd
- Awydd i gael tôn a thempo cyson i'r gerddoriaeth nad yw'n tarfu ar wrandawyr nac yn gwyro oddi wrth yr hyn maen nhw eisiau gwrando arno
- Ar gyfer radio ymlaciol, mae'r cellwair gan gyflwynwyr sy'n rhan o apêl adeg brecwast ac amser gyrru yn rhy ddifyr ar gyfer achlysuron radio ymlaciol, lle mae llai o siarad yn well
- Mae'r cyflwr ymlacio yn dibynnu ar ddiffyg newyddion a materion cyfoes a datgysylltu. Ceisio osgoi unrhyw sylw neu drafodaeth sy'n debygol o gynhyrfu gwrandawyr (gan gynnwys bwletinau newyddion)
- Gyda radio hamddenol (yn hytrach na rhywfaint o radio i ymlacio), cael gwared ar gemau, gwrandawyr yn ffonio'r sioe ac ati i sicrhau nad oes unrhyw beth yn torri ar draws y tôn neu'n newid y tôn, i greu profiad mwy personol sy'n fwy tebygol o arwain at gyflwr ymlaciol

Wrth ofyn i gynulleidfaoedd am y prif resymau dros wrando ar y radio, mae 'darganfod cerddoriaeth newydd' a 'helpu fi i ddianc rhag bywyd bob dydd' yn gor-fynegeio ar gyfer cynulleidfaoedd 16-34 oed, tra bod 'codi fy hwyliau' yn gor-fynegeio ar gyfer cynulleidfaoedd C2DE.[28]

Mae'r ymchwil hwn wedi llywio'r dewis o orsafoedd i'w dilyn er mwyn diwallu anghenion hwyliau gwrandawyr modern yn well – yn enwedig teimlo'n dda o dreiddio'n ddwfn i'w hoff gyfnod, hwb egni o gerddoriaeth ddawns fywiog a gwrando'n dawel ar gerddoriaeth glasurol ar adegau allweddol yn ystod y dydd.

Bydd yr amserlenni'n cael eu sbarduno gan gyfateb i hwyliau cynulleidfaoedd yn hytrach nag yn ôl amser o'r dydd yn unig, gydag amserlenni symlach a llawer llai o oriau byw na gorsafoedd radio cerddoriaeth rhwydwaith presennol y BBC. Ni fydd y gorsafoedd newydd hyn yn cynnal bwletinau newyddion gan mai gorsafoedd cerddoriaeth sy'n seiliedig ar hwyliau yw'r rhain yn bennaf, ac mae ymchwil yn dweud wrthym nad yw gwrandawyr sy'n chwilio am raglen ysgafn ac ymlaciol eisiau unrhyw beth yn torri ar draws y dôn a'r naws.[29]

---

[27] Ymchwil 'Soundcheck' a gomisiynwyd gan y BBC 2022
[28] IPA Touchpoints, 2023
[29] Ymchwil Soundcheck a gynhaliwyd gan MTM ar gyfer y BBC yn 2022

### *3.1.3 Cefnogi creadigrwydd Prydain*

Byddwn yn dod â chynulleidfaoedd yn agosach at genres a chyfnodau o gerddoriaeth maen nhw'n eu caru fwyaf, gyda chyd-destun, curadu ac adrodd straeon drwy gerddoriaeth y gall y BBC a'i archif unigryw yn unig ei wneud.

Bydd pob un o'r gorsafoedd newydd yn cynnwys rhaglenni cerddoriaeth o ansawdd uchel sy'n cael eu harwain gan dalent, gan chwarae amrywiaeth eang o draciau a chynnig mwy o arbenigedd ar genres na'r farchnad, gan ddefnyddio arbenigedd a gwybodaeth curaduron a chyflwynwyr y BBC, ac archif unigryw'r BBC o glipiau, cyfweliadau a pherfformiadau byw sy'n adrodd stori cerddoriaeth y DU. Byddant yn canolbwyntio ar gerddoriaeth y DU, ac yn achos Radio 1 Dance ac estyniad Radio 3, byddant yn hyrwyddo ac yn arddangos cerddoriaeth newydd, ac yn cefnogi perfformiadau byw ar draws digwyddiadau allweddol fel y Proms a Dance Weekend: Ibiza Radio 1.

### *3.1.4 Newid i ddyfodol digidol yn gyntaf*

Bydd cynulleidfaoedd yn gallu gwrando ar y gorsafoedd yn fyw ar DAB+ a BBC Sounds, ac mae DAB+ yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gyrraedd grwpiau o gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol mewn ffordd gost-effeithiol. Bydd DAB+ hefyd yn chwarae rhan hanfodol a chost-effeithiol i annog y newid digidol i BBC Sounds, lle gall cynulleidfaoedd fwynhau swyddogaethau gwrando byw ychwanegol (er enghraifft, rhewi a mynd yn ôl, gweld y trac sy'n chwarae) a pharhau â'u teithiau gwrando i ganfod rhagor o benodau a chynnwys perthnasol arall sydd ar gael ar-alw, mewn profiad gwell a mwy personol.

## 3.2 Estyniad DAB+ ar gyfer Radio 1 Dance

Ym mis Hydref 2020, fe wnaethom lansio Radio 1 Dance fel ffrwd ar-lein yn unig ar BBC Sounds, fel llwyfan ar gyfer cynnwys a oedd eisoes ar gael ar Sounds.

Rydyn ni nawr yn bwriadu ail-lansio Radio 1 Dance fel gorsaf radio ar DAB+, gan wella'r hyn sy'n cael ei gynnig i gynulleidfaoedd drwy gyflwyno rhai comisiynau newydd a darparu llwyfan mwy ar DAB+ i ddangos buddsoddiad creadigol y BBC mewn cerddoriaeth ddawns, gan adrodd stori genre sy'n apelio'n fawr at bobl ifanc, cefnogi datblygiad artistiaid newydd o'r DU, ac adlewyrchu'r sîn i gynulleidfa ehangach, gan helpu i gynhyrchu caneuon byd-eang o'r DU.

Ymhlith y gymysgedd o gynnwys, ceir cynnwys presennol Radio 1 Dance sydd ar gael ar BBC Sounds, ochr yn ochr â rhai comisiynau newydd a rhywfaint o gynnwys wedi'i gyd-ddarlledu gan Radio 1. Bydd yr orsaf yn gartref i'r sioeau byd-enwog sydd eisoes yn cael eu darlledu ar Radio 1 e.e. *Radio 1's Essential Mix* a *Radio 1 Residency* (sy'n llwyfannau adnabyddus ar gyfer DJs mwyaf y byd), yn ogystal â *Radio 1 Dance Party* a *Future Dance*, sy'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o feithrin cynhyrchwyr, DJs ac artistiaid electronig addawol; cydweithrediadau gyda labeli a brandiau dawns gyda *Radio 1 Dance Presents*; edrych yn agosach ar genres dawns gyda sioeau fel *Radio 1's Drum & Bass Show*; ac arddangos traciau dawns prif ffrwd yn ystod y dydd, a hel atgofion gyda *Radio 1's Dance Anthems*. Byddai'r artistiaid a'r DJs a chwaraeir yn cynnwys Bicep, Joel Corry, Overmono, Becky Hill, Chase & Status, Disclosure, Peggy Gou a Calvin Harris.

### *3.2.1 Cynulleidfa darged*

Mae Radio 1 Dance eisoes yn frand cydnabyddedig gan y BBC sydd wedi'i anelu at gynulleidfaoedd rhwng 15 a 34 oed, ac mae wedi bod yn ffrwd Sounds-yn-unig ers ei lansio ym mis Hydref 2020. Nod Radio 1 Dance yw rhoi mwy o werth i gynulleidfaoedd iau o grwpiau C2DE sy'n cael llai o werth gan y BBC, gydag arlwy o gerddoriaeth sy'n canolbwyntio ar Ddawns sy'n gor-fynegeio ar gyfer y gynulleidfa hon.

### *3.2.2 Ystod ac amrywiaeth o gerddoriaeth*

Bydd Radio 1 Dance yn adrodd stori genre sy'n apelio'n helaeth at bobl ifanc. Yn gerddorol, bydd Radio 1 Dance yn adlewyrchu amrywiaeth eang o gerddoriaeth ddawns ar draws yr holl is-genres, o berfformwyr ar frig y siartiau i house a drymiau a bas. Bydd yr orsaf yn arddangos traciau dawns presennol, y dyfodol a'r gorffennol, gyda chymysgeddau DJ unigryw a phartneriaethau cynnwys sy'n adlewyrchu'r ystod lawn o dueddiadau cerddoriaeth a dawns electronig ledled y DU ac yn fyd-eang.

Bydd Radio 1 Dance yn parhau i chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth nag unrhyw orsaf debyg. Yn 2023, chwaraeodd ffrwd Radio 1 Dance ar BBC Sounds 3,273 o draciau unigryw. Ein bwriad yw y bydd Radio 1 Dance yn parhau i ddarparu ystod debyg o draciau fel gorsaf radio DAB+.

### *3.2.3 Cerddoriaeth Newydd*

Bydd Radio 1 Dance yn parhau i gefnogi artistiaid a DJs newydd a'r caneuon dawns diweddaraf. Rydyn ni'n cynnig bod tua thraean o'r gerddoriaeth yn ystod y dydd yn gerddoriaeth newydd (fel sy'n cael ei ddiffinio gan Ofcom yn y Drwydded Weithredu).

### *3.2.4 Cerddoriaeth a thalentau o Brydain*

Er y bydd yn chwarae'r gorau o gerddoriaeth ddawns o bob cwr o'r byd, bydd gorsaf Radio 1 Dance yn canolbwyntio'n benodol ar artistiaid o'r DU, gan gyfateb i lefel Radio 1 o 45% o draciau ar draws yr amserlen sy'n dod gan artistiaid o'r DU. Byddai Radio 1 Dance wedi'i hail-lansio'n darparu llwyfan mwy ar DAB+ i ddangos buddsoddiad creadigol y BBC yn y sîn ddawns a chlybio i gynulleidfa dorfol, er enghraifft drwy gydweithio â brandiau a labeli dawns y DU gyda *Radio 1 Dance Presents*.

### *3.2.5 Cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig*

Bydd Radio 1 Dance hefyd yn adlewyrchu ac yn darparu cyd-destun ar gyfer digwyddiadau byw sy'n cynnwys DJs newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg yn y genre, fel Dance Weekend: Ibiza Radio 1 a digwyddiadau trydydd parti eraill. Bydd hefyd yn cynnwys rhaglenni gan gynnwys *Radio 1 Dance Party* a *Future Dance* sy'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o feithrin cynhyrchwyr, DJs ac artistiaid electronig addawol. Bydd BBC Introducing yn parhau i gefnogi artistiaid newydd gan gynnwys artistiaid dawns, gan eu cyflwyno i gynulleidfaoedd mewn digwyddiadau byw, a recordio a darlledu perfformiadau unigryw ar yr orsaf Radio 1 Dance newydd.

## 3.3 Estyniad DAB+ newydd ar gyfer Radio 1

Bydd yr estyniad newydd ar gyfer Radio 1 yn cynnig y cyfle i gynulleidfaoedd iau rhwng 15 a 34 oed gael gwybodaeth fanwl am y traciau a'r artistiaid eiconig sydd wedi siapio'r ddau ddegawd diwethaf, gan eu helpu i ddarganfod ac ailddarganfod amrywiaeth eang o

gerddoriaeth ac artistiaid sy'n cael eu cefnogi gan Radio 1 o'r 2000au a 2010au. Bydd yn darparu gorsaf benodol i bobl ifanc allu camu'n ôl i'r gorffennol drwy lais talent ifanc – y tu ôl i'r microffon ac o'i flaen – gan ddatblygu sgiliau curadurol maen nhw'n eu defnyddio fwyfwy erbyn hyn yn y gofod digidol.

Byddai'r artistiaid a fyddai'n cael eu chwarae yn cynnwys Foals, Dua Lipa, Rihanna, The Killers, Rudimental, Basement Jaxx, Clean Bandit, Girls Aloud ac Years & Years.

Yn y gymysgedd o gynnwys, byddwn yn clywed cynnwys presennol Radio 1 sydd ar gael ar BBC Sounds fel *Workout Anthems Radio 1*, a *Chill Out Anthems Radio 1*, yn ogystal â rhaglenni newydd wedi'u curadu gan leisiau newydd, ochr yn ochr â rhai o gyd-ddarllediadau o gynnwys Radio 1. Bydd yr orsaf yn ehangu sut mae cynulleidfaoedd ifanc yn darganfod cerddoriaeth newydd ar y radio, gan fynd y tu hwnt i restrau chwarae a gynhyrchir yn algorithmig drwy gynnig cynnyrch sydd wedi'i guradu go iawn gan bobl. Bydd yn ymateb i newidiadau mewn ymddygiad cerddorol sy'n cael eu sbarduno gan ffrydio, a'r galw cynyddol ymysg cynulleidfaoedd iau am ddyfnder ac ehangder a darganfod cerddoriaeth 'newydd i mi', er enghraifft poblogrwydd newydd 'Running Up That Hill' gan Kate Bush yn Stranger Things, a 'Murder On The Dancefloor' gan Sophie Ellis Bextor drwy Saltburn. Byddwn yn tynnu sylw at ddigwyddiadau diwylliannol poblogaidd y dyddiau hyn ac yn darparu pwyntiau cychwyn a fydd yn hysbysu, yn addysgu ac yn curadu o amgylch rhai straeon a digwyddiadau pwysig, a byddwn yn rhoi cyd-destun mewn ffordd ifanc, lawen a hwyliog i ddarganfod sîn cerddorol ac artistiaid y gallai cynulleidfaoedd iau fod wedi'u colli y tro cyntaf iddynt ymddangos.

### *3.3.1 Cynulleidfa darged*

Bydd yr estyniad newydd ar gyfer Radio 1 yn targedu cynulleidfaoedd iau rhwng 15 a 34 oed, gan gynnig arlwy hwyliog, gynnes, ysbrydoledig sy'n llawn atgofion drwy gydol y dydd, ac arlwy fwy hamddenol a diddan gyda'r nos. Bydd yr amserlen yn cyd-fynd â phrif orsaf Radio 1, gan ddarparu gorsaf benodol i bobl ifanc allu camu'n ôl i'r gorffennol gan frand y mae pobl ifanc yn ymddiried ynddo. Nod yr estyniad yw rhoi mwy o werth i gynulleidfaoedd iau o grwpiau C2DE sy'n cael llai o werth gan y BBC, gydag arlwy o gerddoriaeth sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa hon.

### *3.3.2 Ystod ac amrywiaeth o gerddoriaeth*

Bydd yr estyniad newydd ar gyfer Radio 1 yn chwarae amrywiaeth ehangach o draciau na chystadleuwyr masnachol, gan chwarae tua 4,000 o draciau'r flwyddyn. Mae dadansoddiad y BBC yn awgrymu bod chwarter y traciau sy'n cael eu chwarae ar yr orsaf yn annhebygol o gael eu chwarae'n rheolaidd ar orsafoedd masnachol allweddol, gyda'r gymysgedd o draciau'n wahanol i unrhyw beth sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd.[30]

Bydd yr estyniad newydd ar gyfer Radio 1 hefyd yn chwarae o amrywiaeth ehangach o genres cerddoriaeth, a rhoi sylw i'r artistiaid a'r traciau y mae Radio 1 wedi helpu

---

[30] Mae hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r traciau sy'n cael eu chwarae gan frandiau perthnasol presennol ar Radio 1 ym mis Tachwedd 2022. Cafodd y 471 o draciau a gafodd eu chwarae yn ystod y mis hwnnw eu cymharu â phum gorsaf fasnachol ar gyfer y flwyddyn hyd yma, hynny yw, 11 mis. Dim ond 72% o'r 471 o draciau oedd wedi cael eu chwarae ar Capital, Kiss, Radio X, Kisstory a Capital Dance.

gwrandawyr i’w darganfod, gan gefnogi artistiaid ar eu taith o ryddhau cynnyrch newydd i draciau poblogaidd. Bydd yn cynnwys cerddoriaeth o’r 2000au a’r 2010au yn bennaf. Bydd rhaglenni Dance, Workout a Chillout Anthems presennol Radio 1 yn ymddangos ar estyniad newydd Radio 1, ochr yn ochr â blociau o fwy nag un genre gan gynnwys traciau hip-hop, R&B, roc a phop.

#### *3.3.3 Cerddoriaeth a thalentau o Brydain*

Bydd yr estyniad newydd ar gyfer Radio 1 yn canolbwyntio ar artistiaid o’r DU drwy ddathlu’r dalent y mae Radio 1 wedi’i chefnogi ac wedi helpu i ddatblygu cynulleidfaoedd a chefnogwyr dros y ddau ddegawd diwethaf ac, o’r herwydd, bydd yn adlewyrchu rôl Radio 1 yn cefnogi artistiaid o Brydain. Bydd yr estyniad yn chwarae mwy o draciau gan artistiaid o Brydain na gorsafoedd masnachol tebyg, ac mae disgwyl i artistiaid o Brydain greu traean o’r traciau a fydd yn cael eu chwarae. Bydd hyn yn cael ei gydbwyso â’r angen i adlewyrchu’r ystod lawn o’r gerddoriaeth orau o’r cyfnod hwn, a fydd yn cynnwys genres sydd â llawer mwy o artistiaid o’r Unol Daleithiau ac artistiaid eraill o’r tu allan i’r DU fel hip hop ac R&B.

Mae gan Radio 1 hanes cyson o ganfod, cyflwyno a datblygu talent ifanc i'r diwydiant; er enghraifft, Greg James o Student Radio. Byddwn yn arddangos talent newydd ar draws yr orsaf newydd hon, gan ei defnyddio nid yn unig fel brand sy'n wynebu'r gynulleidfa ond hefyd un sy'n ymgorffori talent newydd, gan feithrin talent newydd ar yr awyr ac oddi ar yr awyr i ysgogi twf yn y diwydiannau creadigol. Bydd yn cefnogi cronfa dalent newydd gynyddol Radio 1 yn ogystal â chreu cyfleoedd ar gyfer talent cynhyrchu newydd drwy gyflenwyr o bob rhan o’r DU, ochr yn ochr â thimau cerddoriaeth Radio 1 sy’n ddibynadwy ac yn brofiadol.

#### *3.3.4 Cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi’i recordio’n arbennig*

Bydd yr estyniad yn cynnig rhaglenni sy’n hyrwyddo darganfod cerddoriaeth ‘newydd i mi’ ymhlith cynulleidfaoedd o dan 35 oed, gan roi sylw i'r artistiaid a’r traciau y mae Radio 1 wedi helpu gwrandawyr i’w darganfod a dangos perfformiadau byw o archif unigryw'r BBC. Yn y cyfnod cyn prif ddigwyddiadau cerddoriaeth Radio 1 (er enghraifft, Big Weekend Radio 1, Dance Weekend: Ibiza Radio 1, Gŵyl Reading a Leeds), bydd yr estyniad yn arddangos repertoire artistiaid sy’n perfformio.

### 3.4 Estyniad DAB+ ar gyfer Radio 2

Bydd yr estyniad ar gyfer Radio 2 yn rhoi cipolwg unigryw ar hen ganeuon pop, gan dyrchu drwy gerddoriaeth ac archif unigryw’r BBC o’r 1950au, y 1960au a’r 1970au yn bennaf.

Bydd yr amserlen yn cael ei rhaglennu’n benodol i gynnig dihangfa – gwasanaeth cyhoeddus pwysig. Rydyn ni’n gwybod bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi cael ailymweld â cherddoriaeth a straeon eu hieuenctid – *Sounds of the 60s Radio 2* yw’r teitl cerddoriaeth ar-alw y mae pobl yn gwrando fwyaf arno ar BBC Sounds.[31] Mae’r orsaf hon yn cynnig cyrchfan benodol sydd bob amser ar gael i gynulleidfaoedd i wella’r dasg o ganfod yr amrywiaeth eang o gynnwys cerddoriaeth sydd ar gael drwy BBC Sounds, y tu

[31] Dadansoddiadau BBC Sounds Ch3 2023

hwnt i raglenni 'Sounds of…' ar brif amserlen Radio 2. Bydd yr amserlen yn cael ei rhaglennu mewn modd sensitif i gynnig arlwy sy'n ategu Radio 2.

Byddwn yn curadu stori cerddoriaeth bop o'r cyfnodau hyn gan rai o'r bobl a siapiodd y dirwedd ddiwylliannol ar y pryd, ac yn darparu trac sain nad oes dim byd o'i debyg yn y farchnad bresennol. Byddai'r artistiaid a fyddai'n cael eu chwarae yn cynnwys Abba, The Beatles, Elvis Presley, Stevie Wonder, Dusty Springfield, Elton John, Bob Marley, Joni Mitchell, Kate Bush, Dame Shirley Bassey, Bee Gees, Dolly Parton, George Benson, Petula Clark a'r Rolling Stones, ochr ag amrywiaeth o genres gan gynnwys cerddoriaeth Motown, roc a rôl, a rhythm a *blues*.

Yn y gymysgedd o gynnwys, byddwn yn clywed rhywfaint o gynnwys presennol Radio 2 sydd ar gael ar BBC Sounds fel *Sounds of the 60s*, a *The Paul Gambaccini Collection*, yn ogystal â chomisiynau newydd penodol, a rhai o gyd-ddarllediadau o Radio 2. Gyda chyflwynwyr poblogaidd iawn Radio 2 a'r archif gerddoriaeth heb ei hail sydd gan y BBC, rydyn ni'n bwriadu dod â chatalogau a straeon artistiaid treftadaeth yn fyw mewn ffordd sy'n cynnig mwy o ddyfnder ac ansawdd nag y gall prif orsaf Radio 2 ei wneud, i ddathlu ac i goffáu pen-blwyddi, pen-blwyddi arbennig a digwyddiadau pwysig yn hanes cerddoriaeth boblogaidd. Mae'r estyniad newydd ar gyfer Radio 2 hefyd yn gyfle i arddangos mwy o fersiynau clasurol o rai o frandiau cerddoriaeth mwyaf poblogaidd y BBC o'r archif, ar radio cenedlaethol DAB+.

Mae gan Radio 2 amod Trwydded Weithredu sy'n mynnu ei bod yn chwarae 20% o gerddoriaeth newydd[32] ac, er enghraifft, dim ond 5% o'i draciau mae'n ei chwarae sydd o'r 1960au ar gyfartaledd.[33] Bydd yr estyniad hwn yn rhoi cyfle i wrandawyr ymgolli'n llwyr yng ngherddoriaeth y degawdau cynharach.

### *3.4.1 Cynulleidfa darged*

Mae'r estyniad yn targedu gwrandawyr 55 oed a hŷn sy'n chwilio am brofiad mwy cynhwysfawr o gamu'n ôl i'r gorffennol na'r hyn y mae amserlen Radio 2 a'r farchnad radio ehangach yn gallu ei gynnig ar hyn o bryd. Nod yr estyniad ar gyfer Radio 2 yw rhoi mwy o werth i gynulleidfaoedd o grwpiau C2D, yn enwedig y rheini sy'n cael llai o werth gan y BBC, ond sy'n gweld gwerth ym mrand Radio 2 a'i gyflwynwyr dibynadwy.

### *3.4.2 Ystod ac amrywiaeth o gerddoriaeth*

Bydd yr orsaf yn defnyddio llyfrgell o tua 5,000 o draciau'r flwyddyn, ochr yn ochr ag archif orau'r BBC, gan gynnwys cyngherddau a pherfformiadau, cyfweliadau a rhaglenni dogfen arbennig ar yr artistiaid a'r digwyddiadau pwysig a siapiodd gerddoriaeth boblogaidd, gan adrodd stori artistiaid drwy repertoires. Mae hyn yn cefnogi diben cyhoeddus 3 y BBC i ddarparu'r allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau, a diben cyhoeddus 2 y BBC i gefnogi cyfleoedd dysgu i bobl o bob oed.

Bydd estyniad ar gyfer Radio 2 yn canolbwyntio ar hen ganeuon pop, gan dyrchu drwy gerddoriaeth ac archif unigryw'r BBC o'r 1950au, y 1960au a'r 1970au. Wedi'i guradu gan rai o dalentau mwyaf poblogaidd y BBC, bydd yr orsaf hon yn mynd â gwrandawyr ar

---

[32] Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU, Mawrth 2023, Amod 3.10.2
[33] RadioMonitor, 1 Ion-31 Rhag 2023, pob awr

daith angerddol drwy'r degawdau hyn. Bydd hefyd yn dangos mwy o fersiynau clasurol o rai o frandiau cerddoriaeth mwyaf poblogaidd y BBC o'r archif ar radio cenedlaethol.

Nid yw cerddoriaeth o'r 1960au yn benodol yn cael ei chlywed gymaint ym marchnad radio bresennol y DU – 26% o draciau ar Boom, 7% o draciau ar Smooth, 4% ar Greatest Hits a 2% ar Magic.[34]

### *3.4.3 Cerddoriaeth a thalentau o Brydain*

Bydd estyniad ar gyfer Radio 2 yn rhoi ffocws penodol ar gerddoriaeth o Brydain i roi cyfle i wrandawyr archwilio treftadaeth gyfoethog cerddoriaeth o Brydain dros y degawdau. Bydd 40% o'r gerddoriaeth a chwaraeir gan artistiaid o Brydain.

### *3.4.4 Cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig*

I gefnogi dathliadau pen-blwydd a digwyddiadau sy'n coffáu pen-blwyddi pwysig, ac uchafbwyntiau mewn diwylliant poblogaidd, bydd yr estyniad ar gyfer Radio 2 yn dangos cyngherddau a sesiynau cerddoriaeth fyw o archif y BBC.

### *3.4.5 Siarad*

Bydd yr estyniad ar gyfer Radio 2, sy'n unigryw ymysg gorsafoedd sydd ag estyniad yn y farchnad, yn darparu rhywfaint o gynnwys siarad yn rheolaidd. Bydd yn defnyddio'r gorau o archif y BBC gan gynnwys cyfweliadau a rhaglenni dogfen arbennig ar yr artistiaid a'r digwyddiadau pwysig a siapiodd gerddoriaeth bop. Bydd darparu'r cynnwys siarad ochr yn ochr â'r gerddoriaeth yn rhoi cyfleoedd i ddeall ac archwilio'r genres yn fwy manwl.

## 3.5 Estyniad DAB+ ar gyfer Radio 3

Bydd yr estyniad ar gyfer Radio 3 yn cynnig profiad cerddoriaeth glasurol sy'n dawel ac yn hamddenol ac yn cefnogi arferion dyddiol gwrandawyr, yn eu helpu i ddianc rhag pwysau a straen bywyd bob dydd ac yn hyrwyddo eu lles. Drwy gydol y dydd, cynigir cynnwys sy'n hyrwyddo ffocws, yn helpu gwrandawyr i fwrw eu blinder, ymlacio a chael cyfle i ddianc i fyd arall yn ogystal â helpu i orffwyso a chysgu.

Cerddoriaeth fydd yn y rhaglenni yn bennaf, gydag amrywiaeth eang o gerddoriaeth glasurol, yn gyfarwydd ac yn newydd. Bydd y gerddoriaeth yn cydblethu â lleisiau a seinweddau cysurlon i greu sain ffres, unigryw sy'n tywys y gwrandawyr i fan tawel.

Yn y gymysgedd o gynnwys bydd teitlau cerddoriaeth presennol sydd ar gael ar BBC Sounds fel y *Mindful Mix,* a sioeau dan arweiniad artistiaid fel *Ultimate Calm,* yn ogystal â chomisiynau newydd. Hefyd, bydd rhywfaint o gynnwys sy'n cael ei gyd-ddarlledu o Radio 3 fel *Night Tracks*, gyda cherddoriaeth wedi'i chreu i helpu i ganolbwyntio a thraciau sain a seinweddau sy'n tawelu'r meddwl. Yn yr amserlen hefyd bydd cyfuniadau unigryw a gafaelgar o gynnwys siarad a cherddoriaeth fel y gwelir yn nheitlau presennol BBC Sounds fel *The Music & Meditation podcast, Tearjerker* a *The Sleeping Forecast* (cyfuniadau unigryw o *Shipping Forecast* Radio 4 a cherddoriaeth glasurol gan artistiaid BBC Introducing). Bydd yr estyniad yn cynnwys sioeau sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ofalgar, lles a chysgu gydag arlwy gyson sy'n gwbl wahanol i unrhyw

[34] RadioMonitor, 1 Ion-31 Rhag 2023

beth ar radio'r DU. Bydd y gerddoriaeth yn cael ei hategu gan amrywiaeth o leisiau tawel a chysurlon.

### *3.5.1 Cynulleidfa darged*

Mae'r estyniad ar gyfer Radio 3 wedi'i anelu at gynulleidfaoedd rhwng 35 a 54 oed, sy'n iau na'r oedran cyfartalog ar gyfer Radio 3 a gorsafoedd clasurol eraill.[35] Bydd hyn yn helpu i ddenu mwy o gynulleidfa i gerddoriaeth glasurol yn y DU, ac yn diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well.

### *3.5.2 Ystod ac amrywiaeth o gerddoriaeth*

Bydd yr estyniad ar gyfer Radio 3 yn defnyddio llyfrgell o oddeutu 8,000 o draciau'r flwyddyn, o'r 1500au hyd heddiw, a bydd yn cynnwys mwy o gerddoriaeth gan amrywiaeth ehangach o gyfansoddwyr clasurol a chyfoes na gorsafoedd masnachol.

Bydd y gerddoriaeth yn cynnwys darnau cyfarwydd a llai adnabyddus, o ffefrynnau tangnefeddus i gerddoriaeth gorawl etheraidd, ac o ansawdd cerddorfaol tawel i synau minimalaidd a neoglasurol. Gall gwrandawyr ddisgwyl clywed traciau clasurol craidd gan gyfansoddwyr fel Bach, Beethoven, Price, Schubert, Chopin, Tchaikovsky, Brahms, Coleridge-Taylor, Debussy, a Rachmaninov, Beach, Gipps, i Max Richter, Anna Clyne, Eric Whitacre, Thomas Adès a Caroline Shaw. Hefyd, bydd darnau minimalaidd a neoglasurol gan gyfansoddwyr fel Philip Glass, John Adams, Poppy Ackroyd, Zoë Keating, Daigo Hanada, Hannah Peel a Meredith Monk yn ogystal â thraciau gan Hans Zimmer, Ryuichi Sakamoto, Hildur Guðnadóttir, Nicholas Britell a Rachel Portman. Mae'r polisi cerddoriaeth a'r amserlennu wedi'u cynllunio i gyfateb i hwyliau'r gynulleidfa drwy'r dydd a'r nos.

### *3.5.3 Cerddoriaeth newydd*

Bydd yr estyniad ar gyfer Radio 3 yn cynnwys darnau sydd newydd eu rhyddhau a pherfformiadau o ddarnau clasurol yn ogystal â chyfansoddiadau newydd sbon. Bydd yr orsaf yn hyrwyddo cerddoriaeth gan gyfansoddwyr sy'n fyw a'r genhedlaeth newydd o artistiaid-cyfansoddwyr fel Erland Cooper, Hania Rani, Ólafur Arnalds ac Isobel Waller-Bridge. Ychydig iawn o'r artistiaid hyn, a'u cyd-artistiaid, sy'n cael eu chwarae llawer a'u cefnogi ar orsafoedd radio eraill y DU. Bydd hefyd yn cefnogi cyfansoddwyr a pherfformwyr amrywiol nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n deg, gan gynnwys menywod ac artistiaid o gefndiroedd ethnig amrywiol. Rydyn ni'n amcangyfrif y bydd tua 15% o'r gerddoriaeth a chwaraeir yn recordiadau wedi'u rhyddhau yn ystod y 12 mis blaenorol.

### *3.5.4 Cerddoriaeth a thalentau o Brydain*

Bydd yr estyniad ar gyfer Radio 3 yn hyrwyddo hen gerddoriaeth a cherddoriaeth newydd o Brydain, gan gynnwys artistiaid newydd BBC Introducing. Bydd yn adlewyrchu perfformiadau gan Gorau a Cherddorfeydd y BBC o bob cwr o'r DU. Yn y gymysgedd o gynnwys bydd rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno a'u curadu gan dalent o Brydain, a bydd yr orsaf yn cynnwys cerddoriaeth a chomisiynau newydd gan gyfansoddwyr addawol o

[35] RAJAR Ch3 2023

Brydain. Bydd yn chwarae amrywiaeth eang o draciau gan amrywiaeth o gyfansoddwyr o Brydain.

### *3.5.5 Cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig*

Bob wythnos drwy gydol yr amserlen, bydd yr orsaf yn darlledu cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig. Bydd yn adlewyrchu repertoire sy'n seiliedig ar hwyliau gan Gorau a Cherddorfeydd y BBC ledled y DU, ac Artistiaid Cenhedlaeth Newydd y BBC, gan roi sylw i dros 2,000 o'u perfformiadau. Bydd yr orsaf hefyd yn cefnogi gŵyl Proms y BBC drwy gymysgedd o gerddoriaeth wedi'i churadu sy'n rhoi sylw i berfformiadau'r Proms, gan gynnwys perfformiadau Corau a Cherddorfeydd y BBC, gan ddod â'r digwyddiadau cerddorol unigryw hyn i gynulleidfa ehangach yn y DU.

### *3.5.6 Siarad*

Yn yr estyniad ar gyfer Radio 3 bydd cyfuniadau unigryw a gafaelgar o gynnwys siarad a cherddoriaeth fel y gwelir yn nheitlau presennol BBC Sounds fel *The Music & Meditation podcast, Tearjerker* a *The Sleeping Forecast* (cyfuniadau unigryw o *Shipping Forecast* Radio 4 a cherddoriaeth glasurol gan artistiaid BBC Introducing). Bydd yr estyniad yn cynnwys sioeau sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ofalgar, lles a chysgu mewn ffordd gwbl wahanol i unrhyw un o'n cystadleuwyr, gydag ystod o leisiau tawel a chysurlon sy'n cyd-fynd â'r gerddoriaeth.

## 3.6 Dosbarthiad

Bydd y gorsafoedd radio cerddoriaeth sydd ar y gweill yn cael eu dosbarthu yn yr un ffordd i raddau helaeth â gorsafoedd radio cenedlaethol presennol y BBC, hynny yw, ar draws radio digidol, BBC Sounds, a seinyddion clyfar.

Y rhain fydd gorsafoedd radio cenedlaethol cyntaf y BBC a fydd yn cael eu dosbarthu ar DAB+ yn hytrach na DAB safonol. Mae DAB+ yn fwy effeithlon na DAB safonol, gan ganiatáu i fwy o wasanaethau gael eu darlledu ar yr un plethiad gyda'r un ansawdd sain. Mae pob dyfais sy'n gallu delio â DAB+ hefyd yn gallu cael darllediadau DAB safonol, ond nid yw setiau radio DAB safonol yn unig yn gallu derbyn gwasanaethau sy'n cael eu darlledu gan ddefnyddio DAB+. Ar hyn o bryd, mae 41 o orsafoedd radio masnachol cenedlaethol yn darlledu ar DAB+ yn y DU.[36]

Mae gwrando ar y radio hefyd yn parhau â'i symudiad tymor hir oddi wrth AM/FM tuag at DAB/DAB+ ac ar-lein, ar draws dyfeisiau symudol, y we, a thrwy ddyfeisiau cysylltiedig yn y cartref (e.e. seinyddion clyfar) ac yn y car. Er bod gwrando ar-lein yn dal i dyfu'n gyflym, mae'r mwyafrif o'r amser gwrando ar y radio ar DAB/DAB+ o hyd, sef 42% (40% ar gyfer pobl dan 35 oed). Rhagwelir y bydd hyn yn parhau i dyfu, ac amcangyfrifir mai ar DAB/DAB+ fydd 50% o'r amser gwrando ar y radio erbyn 2030.[37]

Bydd y BBC yn defnyddio ei gapasiti DAB presennol i lansio'r gorsafoedd newydd. Mae dosbarthu'r gorsafoedd hyn ar DAB+ o fewn capasiti DAB presennol y BBC yn ffordd gost-effeithiol o gyrraedd y cynulleidfaoedd targed yn eu cartrefi ac yn y car, gan

---

[36] RAJAR Ch3 2023,dadansoddiad y BBC
[37] Cyfran platfform RAJAR Ch3 2023; rhagolygon Mediatique ar gyfer y BBC

ddefnyddio DAB+ i ddangos y buddsoddiad creadigol y mae'r BBC yn ei wneud mewn cynnwys cerddoriaeth unigryw.

### 3.7 Cyllideb

Bydd y gorsafoedd DAB+ newydd yn gost-effeithiol iawn. Rydyn ni'n amcangyfrif y bydd cyfanswm y gyllideb barhaus ar gyfer y pedair gorsaf newydd yn £3.1 miliwn y flwyddyn, gan gynnwys costau gweithrediadau, staff, technoleg a chynnwys ychwanegol. Nid yw unrhyw gostau hawliau cerddoriaeth ychwanegol wedi'u cynnwys ar hyn o bryd, gan fod hyn yn fasnachol sensitif ac yn destun negodiadau.

Bydd yr estyniadau'n curadu rhaglenni cerddoriaeth ar-alw sydd ar gael ar BBC Sounds, gyda rhai comisiynau newydd, rhai cyd-ddarllediadau, ac o bosibl ychydig bach o gynnwys byw newydd. Mae gennym eisoes nifer fawr o deitlau a fydd yn cael eu darlledu ar yr estyniadau hyn, gan roi mwy o werth o'n buddsoddiad creadigol yn y meysydd hyn. Mae'r dull digidol-yn-gyntaf yn golygu bod prosesau cynhyrchu'n fwy effeithlon ac yn llawer mwy cost-effeithiol o'u cymharu â'r fformatau byw mawr mwy traddodiadol, fel yr elfennau brecwast a gyrru ar radio llinol. Rydyn ni'n defnyddio capasiti DAB presennol, a byddwn yn adeiladu ar effeithlonrwydd gweithredol ein gorsafoedd radio cerddoriaeth presennol a'n trefniadau hawliau cerddoriaeth.

Bydd costau staff a chynnwys yn cael eu hariannu drwy ailflaenoriaethu cyllid o BBC Sounds a gorsafoedd radio Rhwydwaith y BBC. Ni fydd angen dim cynnydd yn y gyllideb ar gyfer Radio Rhwydwaith a BBC Sounds yn sgil y gorsafoedd newydd.

I'w roi yn ei gyd-destun, £498 miliwn oedd cyfanswm gwariant y BBC ar radio ar gyfer 2022/23.[38] Dyma'r cyllidebau cynnwys ar gyfer ein gorsafoedd radio cerddoriaeth presennol: Radio 1 (£39 miliwn); Radio 1Xtra (£10 miliwn); Radio 2 (£50 miliwn); Radio 3 (£34 miliwn); a 6 Music (£14 miliwn).[39]

**Ffigur 6: Amcangyfrif o'r gyllideb (ac eithrio hawliau cerddoriaeth)**

| | **Costau blynyddol** |
|---|---|
| Radio 1 Dance | £0.73 miliwn |
| Estyniad Radio 1 newydd | £0.12 miliwn |
| Estyniad Radio 2 | £0.42 miliwn |
| Estyniad Radio 3 | £0.66 miliwn |
| Costau Eraill Cynnwys/Staff/Cynhyrchu | £0.91 miliwn |
| **Cyfanswm costau cynnwys a staff** | **£2.84 miliwn** |
| | |
| Costau technoleg a gweithrediadau | £0.25 miliwn |
| | |
| **Cyfanswm costau** | **£3.09 miliwn** |

[38] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Grŵp y BBC 2022/23, t.53
[39] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Grŵp y BBC 2022/23, t.152

## 3.8 Amcangyfrif o'r nifer sy'n gwrando ar y gorsafoedd

Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn amcangyfrif nifer y gwrandawyr a'r amser rydyn ni'n ei ragweld a dreulir ar bob un o'r gorsafoedd radio newydd. Bydd hyn yn ystyried tueddiadau gwrando ac ymddygiad cynulleidfaoedd ar hyn o bryd.

Ein rhagdybiaeth ar hyn o bryd yw y bydd pob gorsaf yn llawer llai na'i phrif orsaf. Mae'r ffigurau isod yn amcangyfrifon cychwynnol, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r brig i lawr, o'r gynulleidfa a gyrhaeddir ar ôl bod yn sefydledig, a'r oriau gwrando ar gyfer pob un o'r gorsafoedd, hynny yw, am dair blynedd ar ôl eu lansio ar DAB+.

**Ffigur 7: Amcangyfrif o'r gynulleidfa bosib wythnosol a gyrhaeddir a'r oriau gwrando**

| | Y gynulleidfa a gyrhaeddir yn fras (m) | Oriau Bras (m) | Oriau /gwrandäwr |
|---|---|---|---|
| Radio 1 Dance | 0.96 | 5 | 5 |
| Estyniad Radio 1 newydd | 0.86 | 3 | 3 ½ |
| Estyniad Radio 2 | 2.09 | 21 | 10 |
| Estyniad Radio 3 | 0.24 | 1 | 5 |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

Er ein bod wedi amcangyfrif maint posibl y gorsafoedd arfaethedig, mae'n bwysig nodi nad ydym eto wedi nodi o ble y daw'r gwrando hwnnw. Rydyn ni o'r farn ei bod yn debygol y daw'r gwrando ychwanegol i'r gorsafoedd DAB+ newydd arfaethedig o gyfuniad o'r canlynol:

- Gorsafoedd radio eraill y BBC (gan gynnwys prif orsaf berthnasol pob estyniad) a chynnwys arall sydd ar gael ar BBC Sounds;
- Gorsafoedd cerddoriaeth Radio Masnachol a'u gwasanaethau ar-lein;
- Llwyfannau ffrydio cerddoriaeth – fel Spotify, Apple Music, Amazon Music; a
- Thwf organig, hynny yw, pobl na fyddent, fel arall, wedi gwrando ar unrhyw un o'r uchod.

Bydd cynnydd graddol i'r cyfanswm sy'n gwrando ar radio'r BBC, ac felly bydd maint effaith ein ffrydiau arfaethedig ar y sector masnachol yn dibynnu ar i ba raddau mae'r gwrando ar y gorsafoedd newydd yn digwydd yn lle gwrando ar wasanaethau presennol y BBC neu wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau'r BBC. Rydyn ni'n rhagweld y bydd cyfran sylweddol o'r gwrandawyr ar bob gorsaf yn deillio o gymryd gwrandawyr o wasanaethau eraill y BBC, er enghraifft, bydd llawer a fydd yn gwrando ar estyniad Radio 2 yn arfer gwrando ar Radio 2, y brif orsaf.

Nid ydym yn credu y bydd y newid yn arwain at unrhyw oblygiadau arwyddocaol i eraill yng nghadwyn gwerth sain ddigidol. Ac eithrio artistiaid sy'n recordio a allai fynd yn fwy poblogaidd wrth gael mwy o sylw ar wasanaethau radio ychwanegol. Er bod amser hamdden yn gystadleuol, nid ydym yn disgwyl unrhyw effeithiau uniongyrchol ar weithgareddau eraill fel defnydd clyweledol o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

Yn unol â gofynion y Siarter, y Cytundeb a rheoliadau a chanllawiau Ofcom, byddwn yn cynnal dadansoddiad pellach ac yn mireinio'r amcangyfrifon hyn yn ystod camau

ymgynghori, ymchwilio a dadansoddi proses Prawf Budd y Cyhoedd (gweler rhagor o fanylion yn Adran 5.1.1.2 isod) a byddwn yn darparu dadansoddiad llawn o'r effaith bosibl ar y farchnad fel rhan o'n Prawf Budd y Cyhoedd. Rydyn ni'n croesawu ymatebion ac ymgysylltiad gan yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb.

## 3.9 Amserlenni ar gyfer gweithredu'r newid arfaethedig

Os bydd Ofcom yn penderfynu y caiff y BBC wneud y newidiadau arfaethedig, byddem yn disgwyl dechrau lansio'r gorsafoedd newydd o fewn ychydig fisoedd i benderfyniad terfynol Ofcom.

# 4. Darparu gwerth cyhoeddus

## 4.1 Cyflawni yn erbyn Cenhadaeth y BBC

Mae'r BBC yn sefydliad sy'n cael ei sbarduno gan ei genhadaeth. Ei genhadaeth yw "gweithredu er budd y cyhoedd, gwasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd a neilltuol o safon uchel, sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu".[40]

Wrth wneud hynny, rhaid i'r BBC sicrhau gwerth gwych am arian yn gyfnewid am ffi'r drwydded. Ochr yn ochr â'r genhadaeth hon mae pum diben cyhoeddus sy'n arwain gweithrediad y BBC ymhellach. Sef:

- Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd;
- Cefnogi cyfleoedd dysgu i bobl o bob oed;
- Darparu cynnwys unigryw;
- Adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU a chefnogi'r economi greadigol; ac
- Adlewyrchu'r DU i'r byd.[41]

Rydyn ni'n ystyried gwerth cyhoeddus o ran sut mae newid yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU gan y BBC yn ychwanegu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth honno a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Yn yr adran hon rydyn ni'n nodi sut rydyn ni'n meddwl y bydd y gwasanaethau newydd hyn yn rhoi mwy o werth i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded.

## 4.2 Ein Fframwaith Gwerth Cyhoeddus

Yn 2020, buom yn gweithio gyda'r Athro Mariana Mazzucato ac IIPP (Institute for Innovation and Public Purpose) yng Ngholeg y Brifysgol, Llundain ar ddatblygu fframwaith newydd i asesu gwerth cyhoeddus yn y BBC, i'n galluogi i wneud asesiad mwy cadarn. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y BBC a'r IIPP *Creating and measuring dynamic public value at the BBC – A scoping report*.[42]

Mae sawl agwedd wahanol i werth cyhoeddus, ac er mwyn gwerthuso'r gwerth cyhoeddus y mae ein cynigion yn ei gynhyrchu, rydyn ni'n trafod y rhain yn nhermau'r gwahanol barthau neu grwpiau gwerth:

- **Gwerth i'r unigolyn –** y gwerth a gynhyrchir mewn perthynas â'r ffordd mae'r unigolyn yn defnyddio ein gwasanaethau – i ba raddau y bydd ein newidiadau yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd, yn parhau i gynnig gwasanaeth gwirioneddol gyffredinol iddynt, ac felly'n sicrhau gwerth da am arian o ran ffi'r drwydded. Fel sefydliad sy'n cael ei arwain gan gynnwys, daw cyfran fawr o'r gwerth rydyn ni'n ei gynhyrchu drwy ddefnyddio ein cynnwys.
- **Gwerth i gymdeithas –** y gwerth a gynhyrchir mewn perthynas â chymdeithas ehangach; a

---

[40] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 5
[41] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 6
[42] Creating and Measuring dynamic public value at the BBC – A scoping report, Institute for Innovation and Public Purpose, Institute for Innovation and Public Purpose, UCK, Rhagfyr 2020

- **Gwerth i'r diwydiant –** y gwerth a gynhyrchir fel y mae'n berthnasol i'r diwydiant – i ba raddau y gall ein newidiadau feithrin gwerth i'r diwydiant, gan fod yn rym creadigol drwy gefnogi buddsoddiad, hybu arloesedd, a siapio ac ysgogi'r economi greadigol ledled y DU.

Mae ein dull yn parhau i ddatblygu; mae'r parthau gwerth yn darparu strwythur cyson ar gyfer dadansoddi gwerth cyhoeddus ar draws ein gwasanaethau ac yn ein helpu wrth i ni symud tuag at feintioli mwy o'r gwerth rydyn ni'n ei gynhyrchu.

## 4.3 Ein damcaniaeth gwerth cyhoeddus

Rydyn ni o'r farn y bydd lansio pedair gorsaf radio cerddoriaeth newydd ar DAB+, gan greu pedwar Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU, yn cyfrannu at genhadaeth y BBC drwy geisio gwasanaethu pob cynulleidfa yn well a chyflawni'n benodol y trydydd, y pedwerydd a'r pumed diben cyhoeddus, hynny yw, darparu allbwn o ansawdd uchel ar draws amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnig gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cymunedau'r DU, buddsoddi yn yr economïau creadigol a chyfrannu at eu datblygiad, ac adlewyrchu diwylliant y DU i'r byd.

Yn benodol, rydyn ni o'r farn y bydd ein cynigion ar gyfer gorsafoedd radio cerddoriaeth yn cynnig:

- Gwell gwerth i bob cynulleidfa (yn enwedig y rheini sy'n cael llai o werth o radio cerddoriaeth y BBC ar hyn o bryd) – bydd y gorsafoedd yn rhan o esblygiad hollbwysig brandiau Radio 1, Radio 2 a Radio 3 i wella gwerth i gynulleidfaoedd. Bydd y gorsafoedd yn targedu cynulleidfaoedd iau a C2DE sydd yn cael llai o werth gan y BBC ar hyn o bryd, yn ogystal â diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well. Bydd y gorsafoedd newydd hefyd yn annog y gwrandawyr i symud i BBC Sounds lle gallant fwynhau profiad mwy cyfoethog a phersonol, a darganfod ystod lawn arlwy cynnwys y BBC;
- Ystod ac amrywiaeth o gerddoriaeth – bydd pob un o'r gorsafoedd newydd yn cynnwys rhaglenni cerddoriaeth o ansawdd uchel sy'n cael eu harwain gan dalent, gan chwarae amrywiaeth ehangach o draciau a chyfansoddwyr na'r hyn sydd ar y farchnad, a dod â chynulleidfaoedd yn agosach at genres a chyfnodau o gerddoriaeth maen nhw'n eu caru fwyaf;
- Cerddoriaeth newydd – bydd Radio 1 Dance yn parhau i gefnogi artistiaid a DJs newydd a'r gerddoriaeth ddawns ddiweddaraf i'w rhyddhau, tra bydd yr estyniad ar gyfer Radio 3 yn cynnwys darnau sydd newydd eu rhyddhau a pherfformiadau o ddarnau clasurol yn ogystal â chyfansoddiadau newydd;
- Cerddoriaeth a thalentau o Brydain – bydd y gorsafoedd newydd yn rhoi ffocws i artistiaid o'r DU o ran cyfran y traciau a fydd yn cael eu chwarae. Byddwn yn comisiynu rhaglenni newydd ar gyfer y gorsafoedd newydd, a thrwy ganolbwyntio ar gerddoriaeth arbenigol Ddwys, cerddoriaeth Newydd a cherddoriaeth y DU, byddwn yn codi proffil artistiaid a chyfansoddwyr llai adnabyddus nad ydynt wedi cael eu darlledu cymaint;
- Siarad – bydd y gorsafoedd yn cynnig cyd-destun, curadu ac adrodd straeon-drwy-gerddoriaeth i gynulleidfaoedd y gall dim ond y BBC a'i archif unigryw o glipiau, cyfweliadau a pherfformiadau byw ei wneud;

- Cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig – bydd y gorsafoedd newydd hefyd yn adlewyrchu'r calendr creadigol drwy gydol y flwyddyn, gan roi sylw i'r digwyddiadau byw a'r perfformiadau unigryw yn eu genres, neu ddefnyddio archif unigryw'r BBC o gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig.
- Cefnogaeth ar gyfer arloesi technolegol mewn darlledu radio – mae'n debygol y bydd cyfraniad y BBC mewn DAB+ yn cefnogi datblygiad pellach radio digidol yn y DU.

**Ffigur 8: Crynodeb o'r datganiadau gwerth i'r cyhoedd**

| | Radio 1 Dance | Estyniad Radio 1 | Estyniad Radio 2 | Estyniad Radio 3 |
|---|---|---|---|---|
| Gwell gwerth i bob cynulleidfa | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ystod ac amrywiaeth o gerddoriaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cerddoriaeth newydd | ✓ | | | ✓ |
| Cerddoriaeth a thalentau o Brydain | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | | | ✓ | ✓ |
| Cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi arloesi technolegol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

### *4.3.1 Gwell gwerth i bob cynulleidfa*

Bydd y gorsafoedd yn rhan o esblygiad hollbwysig brandiau Radio 1, Radio 2 a Radio 3 i wella gwerth i gynulleidfaoedd. Byddant yn mynd ati'n gain i guradu rhaglenni cerddoriaeth BBC Sounds o dan arweiniad lleisiau cyfarwydd a phoblogaidd ochr yn ochr â chyflwynwyr newydd cyffrous y BBC. Bydd y gorsafoedd yn targedu cynulleidfaoedd iau a C2DE sydd yn cael llai o werth gan y BBC ar hyn o bryd, yn ogystal â diwallu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well. Bydd y gorsafoedd newydd hefyd yn annog y gwrandawyr i symud i BBC Sounds lle gallant fwynhau profiad mwy cyfoethog a phersonol, a darganfod ystod lawn arlwy cynnwys y BBC.

#### 4.3.1.1 Targedu cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol

Mae gan BBC Radio 1 a Radio 2 y cyfuniad unigryw o raddfa a natur arbennig sy'n cynnig llawer iawn o werth cyhoeddus i gynulleidfaoedd, ond sydd hefyd yn cyrraedd miliynau o gynulleidfaoedd iau a C2DE sydd, mewn cymhariaeth, yn cael llai o werth gan weddill y BBC. Er mwyn gwarchod ac ymestyn y gwerth cyhoeddus hwn, mae angen i ni esblygu sut mae Radio 1 a Radio 2 yn darparu eu harlwy cerddoriaeth a'i gwneud yn haws i gynulleidfaoedd ddod o hyd i gynnwys perthnasol. Drwy adeiladu ar frandiau cerddoriaeth y BBC sydd â'r cysylltiad cryfaf â'r cynulleidfaoedd hyn, mae'r BBC yn ceisio gwneud mwy ar gyfer y cynulleidfaoedd iau a C2DE hyn sy'n cael llai o werth gan y BBC. Mae Radio 1 Dance a'r estyniad newydd ar gyfer Radio 1 yn targedu cynulleidfaoedd o dan 35 oed ac o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, gyda'r estyniad ar gyfer Radio 2

yn targedu cynulleidfaoedd C2DE dros 55 oed. Bydd y gorsafoedd cerddoriaeth newydd hyn sydd wedi'u curadu o genres a chyfnodau penodol o gerddoriaeth yn helpu'r cynulleidfaoedd hyn i ddarganfod y gorau o'r BBC drwy gynigion sydd wedi'u brandio'n glir.

#### 4.3.1.2 Gwasanaethu hwyliau ac anghenion cynulleidfaoedd modern yn well

Bydd y cynigion hyn yn cynnig dewisiadau mwy perthnasol sydd wedi'u labelu'n glir ar gyfer cynulleidfaoedd mewn radio cerddoriaeth. Byddant yn cael eu llunio i adlewyrchu'r anghenion a'r arferion datblygol sydd gan gynulleidfaoedd, sydd wedi dod i ddisgwyl y cynnwys personol a phenodol sy'n cael ei gynnig ar lwyfannau ffrydio fel Spotify ac Apple Music, yn ogystal ag ystod y dewis sydd ar gael mewn estyniadau brand radio masnachol. Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl i radio cerddoriaeth ddarparu arlwy hamddenol 'rhwydd' sy'n rhoi naws gyson a chyfarwydd – boed hynny'n rhywbeth i ymlacio iddo neu'n drac sain egnïol i rywun gael ei hyn yn barod. Bydd y gwasanaethau BBC hyn yn cynnig cyd-destun a churadu unigryw gan bobl, dan arweiniad cyflwynwyr gwybodus ac angerddol, gan gynnwys rhai o leisiau mwyaf poblogaidd radio cerddoriaeth y BBC. Bydd yr amserlenni'n adlewyrchu anghenion hwyliau gwrandawyr modern – boed hynny'n deimlad da o dreiddio'n ddwfn i'w hoff gyfnod, hwb egni o gerddoriaeth ddawns fywiog neu wrando'n dawel ar gerddoriaeth glasurol ar adegau allweddol yn ystod y dydd. Er mwyn cynnig y profiad gwrando hamddenol y mae gwrandawyr yn chwilio amdano i gyfateb i'w hwyliau, bydd y gorsafoedd yn canolbwyntio'n bennaf ar gerddoriaeth, ac ni fyddant yn darlledu bwletinau newyddion.

Mae'r gorsafoedd wedi'u cynllunio i annog cynulleidfaoedd i ddysgu mwy oddi wrth y fformatau a'r lleisiau maen nhw'n eu caru, ac mae DAB+ yn chwarae rhan hollbwysig i gyrraedd grwpiau cynulleidfa nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, mewn ffordd gost-effeithiol. Bydd DAB+ hefyd yn hanfodol i annog y newid digidol i BBC Sounds, lle gall cynulleidfaoedd fwynhau swyddogaethau gwrando byw ychwanegol (er enghraifft, rhewi a mynd yn ôl, gweld y trac sy'n chwarae) a pharhau â'u teithiau gwrando i ganfod rhagor o benodau a chynnwys perthnasol arall sydd ar gael ar-alw, mewn profiad gwell a mwy personol. Ar ben hynny, bydd yr holl raglenni ar y gorsafoedd ar gael fel rhaglenni ar-alw annibynnol ar BBC Sounds. Fel hyn, bydd y gorsafoedd newydd yn gwneud cyfraniad pwysig at wella dyfodol digidol hirdymor sain yn y DU.

Bydd Radio 1 Dance yn dod â'i arbenigedd cydnabyddedig yn y genre i DAB+ i wasanaethu cynulleidfa ehangach nag y mae'n ei wneud ar BBC Sounds ar hyn o bryd. Bydd yr estyniad ar gyfer Radio 3 yn cynnig profiad cerddoriaeth glasurol sy'n dawel ac yn hamddenol ac yn cefnogi arferion dyddiol gwrandawyr, yn eu helpu i ddianc rhag pwysau a straen bywyd bob dydd, ac yn helpu gyda'u lles. Mae'r estyniad newydd ar gyfer Radio 1 yn diwallu angen gwahanol – o ysbrydoli i ymlacio – gan frand y mae pobl ifanc yn ymddiried ynddo. Bydd amserlen yr estyniad newydd ar gyfer Radio 2 yn cael ei rhaglennu'n benodol i gynnig dihangfa – gwasanaeth cyhoeddus pwysig. Rydyn ni'n gwybod bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi cael ailymweld â cherddoriaeth a straeon eu hieuenctid – *Sounds of the 60s Radio 2* yw'r teitl cerddoriaeth ar-alw y mae pobl yn gwrando fwyaf arno ar BBC Sounds. Mae'r orsaf hon yn cynnig cyrchfan benodol sydd bob amser ar gael i gynulleidfaoedd i wella'r dasg o ganfod yr amrywiaeth eang o gynnwys cerddoriaeth sydd ar gael drwy BBC Sounds, y tu hwnt i raglenni 'Sounds of…' ar brif amserlen Radio 2.

### 4.3.2 *Ystod ac amrywiaeth o gerddoriaeth*

Bydd pob un o'r gorsafoedd newydd yn cynnwys rhaglenni cerddoriaeth o ansawdd uchel sy'n cael eu harwain gan dalent, gan chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na'r hyn sydd ar y farchnad, a dod â chynulleidfaoedd yn agosach at genres a chyfnodau o gerddoriaeth maen nhw'n eu caru fwyaf. Bydd y gorsafoedd DAB+ yn dangos buddsoddiad creadigol y BBC mewn cynnwys cerddoriaeth unigryw i gynulleidfa ehangach er mwyn iddyn nhw allu darganfod yn well.

Mae ffrydio wedi galluogi cynulleidfaoedd iau yn benodol i ddarganfod cerddoriaeth o'r 60 mlynedd diwethaf sy'n newydd iddyn nhw, a hynny drwy argymhellion a rhestrau chwarae wedi'u curadu. Canfu adroddiad gan Ffederasiwn Rhyngwladol y Diwydiant Ffonograffig (IFPI) hefyd fod pobl sy'n mwynhau cerddoriaeth, ar gyfartaledd, yn gwrando ar fwy nag wyth genre gwahanol o gerddoriaeth erbyn hyn, a nododd yr adroddiad fod dros 700 o genres gwahanol yn cael eu clywed.[43]

Gyda'r gorsafoedd hyn, bydd cynulleidfaoedd yn cael cipolwg manylach ar gerddoriaeth arbenigol, wedi'i diffinio gan genre neu gyfnod penodol o gerddoriaeth, lle byddant yn dod o hyd i draciau, artistiaid a pherfformwyr cymharol anghyfarwydd, ochr yn ochr â cherddoriaeth fwy cyfarwydd. Bydd ystod uchelgeisiol y traciau sy'n cael eu chwarae hefyd yn helpu i ddod o hyd i'r is-genres yn y cyfnodau a'r genres hyn. Mae radio cerddoriaeth y BBC eisoes yn chwarae amrywiaeth lawer ehangach o draciau na'r hyn a gynigir gan orsafoedd radio masnachol. Chwaraeodd Radio 2 15,759 o wahanol draciau yn 2023, a'r cyfartaledd ar draws 12 o orsafoedd masnachol blaenllaw oedd 2,517 yn amrywio o 757 ar Smooth; 952 ar Heart; 1,619 ar Magic; a 6,044 ar Greatest Hits.[44] Chwaraeodd Radio 1 12,248 o draciau unigryw, ac roedd dros 40% ohonynt gan artistiaid o Brydain.[45] Yn yr un modd, bydd estyniadau'r brand yn chwarae ystod lawer ehangach o draciau na'r hyn a gynigir gan orsafoedd masnachol tebyg:

- Radio 1 Dance – dros 3,000 o draciau unigryw bob blwyddyn
- Estyniad newydd Radio 1 – tua 4,000 o draciau unigryw bob blwyddyn
- Estyniad Radio 2 – tua 5,000 o draciau unigryw bob blwyddyn
- Estyniad Radio 3 – tua 8,000 o draciau unigryw bob blwyddyn

### 4.3.3 *Cerddoriaeth newydd*

Mae'r BBC wedi ymrwymo i roi lle i gerddoriaeth newydd,[46] a bydd hyn yn wir hefyd am yr estyniadau a gynigir. Er bod dwy o'r gorsafoedd a gynigir yn diwallu'n benodol y galw

---

[43] Engaging with Music 2023, IFPI, t.6, t.17
[44] Dadansoddiad BBC o'r 12 gorsaf fasnachol yn 2022 – Absolute, Capital, Capital Xtra, Gold (UK), Greatest Hits, Heart, Hits (Manceinion), Kiss, Magic, Radio X, Smooth, Virgin
[45] RadioMonitor, Pob awr, 2023. D.S. Mae RadioMonitor yn diffinio artistiaid o Ogledd Iwerddon fel rhai Gwyddelig, a dyna pam y byddai'r ffigur ar gyfer artistiaid o'r DU sy'n cael eu chwarae yn uwch na'r ffigur a roddir yma.
[46] Mae trwydded weithredu'r BBC yn diffinio cerddoriaeth newydd yn y ffordd ganlynol. *Bydd trac cerddoriaeth yn cael ei ystyried yn "Gerddoriaeth Newydd" am gyfnod o naill ai: (a) 12 mis ar ôl ei ryddhau am y tro cyntaf (boed hynny drwy ddulliau ffisegol, radio, lawrlwytho neu ffrydio), neu (b) 6 wythnos ar ôl y dyddiad y mae'n cyrraedd 20 Uchaf Siart Senglau Swyddogol y DU am y tro cyntaf, pa un bynnag yw'r cynharaf.*

ymysg cynulleidfaoedd am gamu'n ôl i'r gorffennol ac y byddant o'r herwydd yn cynnwys cerddoriaeth o ddegawdau blaenorol, bydd cerddoriaeth newydd yn chwarae rhan bwysig i Radio 1 Dance ac i'r estyniad ar gyfer Radio 3:

- Radio 1 Dance – bydd o leiaf traean o'r traciau yn gerddoriaeth newydd
- Estyniad ar gyfer Radio 3 – bydd o leiaf 15% yn recordiadau newydd

### *4.3.4 Cerddoriaeth a thalentau o Brydain*

Mae'r BBC wedi ymrwymo i dynnu sylw at y doniau gorau yn y DU a bydd gan y gorsafoedd newydd uchelgais hefyd i ganolbwyntio ar artistiaid a pherfformiadau yn y DU. Ar y gorsafoedd DAB+ newydd, dyma faint o gerddoriaeth o Brydain fydd:

- Radio 1 Dance – o leiaf 45%
- Estyniad newydd ar gyfer Radio 1 – o leiaf 33%
- Estyniad ar gyfer Radio 2 – o leiaf 40%
- Estyniad ar gyfer Radio 3 - bydd yn chwarae amrywiaeth eang o draciau gan amrywiaeth o gyfansoddwyr o Brydain.

Ar draws yr holl wasanaethau DAB+ newydd a gynigir, byddwn yn comisiynu rhaglenni newydd. Bydd y comisiynau hyn yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i dalentau cynhyrchu sain allu cynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC gyda ffenestr ddarlledu. Drwy'r ystod a'r amrywiaeth o gerddoriaeth a chwaraeir, gan gynnwys cerddoriaeth newydd a cherddoriaeth o Brydain, byddwn yn codi proffil artistiaid nad ydynt wedi cael eu darlledu cymaint yn y gorffennol. Bydd proffil ychwanegol yn helpu'r artistiaid hynny i ddatblygu eu brand ac arwain at fwy o lwyddiant masnachol.

### *4.3.5 Cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig*

Bydd y gorsafoedd newydd yn cefnogi cerddoriaeth fyw, creu perfformiadau unigryw, ac yn defnyddio archif unigryw'r BBC o gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig. Ar y gorsafoedd DAB+ newydd:

- Radio 1 Dance - bydd yr orsaf yn adlewyrchu ac yn darparu cyd-destun ar gyfer digwyddiadau byw sy'n cynnwys DJs newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg yn y genre, fel Dance Weekend: Ibiza Radio 1 a digwyddiadau trydydd parti eraill; bydd BBC Introducing hefyd yn parhau i gefnogi artistiaid newydd gan gynnwys artistiaid dawns, gan ddod â nhw gerbron cynulleidfaoedd mewn digwyddiadau byw, a recordio a darlledu perfformiadau unigryw.
- Estyniad newydd ar gyfer Radio 1 – bydd yr orsaf yn cynnig rhaglenni sy'n hyrwyddo darganfod cerddoriaeth 'newydd i mi' ymhlith cynulleidfaoedd o dan 35 oed, gan ddangos perfformiadau byw o archif unigryw'r BBC.
- Estyniad ar gyfer Radio 2 – bydd yr orsaf yn arddangos cyngherddau a sesiynau cerddoriaeth o archif y BBC i gefnogi dathliadau pen-blwydd a digwyddiadau coffa adegau allweddol mewn diwylliant poblogaidd.
- Estyniad ar gyfer Radio 3 – bob wythnos, bydd yr orsaf yn darlledu cerddoriaeth fyw wedi'i recordio'n arbennig, gan Gerddorfeydd a Chorau'r BBC, Artistiaid Cenhedlaeth Newydd y BBC, a pherfformwyr eraill.

### *4.3.6 Siarad*

Mae siarad yn nodwedd bwysig ac unigryw o orsafoedd radio cerddoriaeth presennol y BBC. Er mai cerddoriaeth yn bennaf fydd ar y pedair gorsaf, bydd rhywfaint o gynnwys siarad ar Radio 2 a Radio 3:

- Estyniad ar gyfer Radio 2 – cyfweliadau a rhaglenni dogfen arbennig o archif y BBC ar yr artistiaid a'r digwyddiadau pwysig a siapiodd gerddoriaeth bop
- Estyniad ar gyfer Radio 3 – cyfuniadau unigryw a gafaelgar o gynnwys siarad a cherddoriaeth, yn debyg i deitlau presennol BBC Sounds fel *The Music & Meditation podcast, Tearjerker* a *The Sleeping Forecast*

### *4.3.7 Cefnogi arloesi technolegol mewn darllediadau radio*

Mae'r Siarter yn nodi " bod yn rhaid i'r BBC hyrwyddo arloesi technolegol" a "chanolbwyntio ar arloesi technegol i gefnogi darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU".[47] Yn fwy penodol, mae'r Cytundeb yn mynnu bod y BBC yn "gwneud pob ymdrech resymol i gefnogi'r newid o radio analog i radio digidol".[48]

Mae'r BBC wedi ymrwymo i radio digidol ers ei lansio ac mae wedi gwneud buddsoddiad sylweddol i barhau i adeiladu ar ddarpariaeth DAB ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r BBC, radio masnachol a'r Llywodraeth wedi cydweithio i gyd-ariannu'r broses o ehangu'r ddarpariaeth i 90% o'r boblogaeth. Mae ymestyn darpariaeth yn rhan bwysig o adeiladu dyfodol digidol ar gyfer radio.

Roedd lansio gorsafoedd DAB yn unig yn rhoi mwy o ddewis i gynulleidfaoedd yn ogystal hefyd â chynnig cynnyrch newydd, fforddiadwy, hawdd eu defnyddio iddynt wrando arnynt. Wrth lansio DAB yn gynnar, gwelwyd cynnydd yn nifer y setiau radio a werthwyd ac, yn bwysig, mewn gwerth i wneuthurwyr yn y DU. Dylai nifer y gwasanaethau DAB+ cenedlaethol sy'n cael eu cyflwyno gan radio masnachol a'r nifer cynyddol o orsafoedd sy'n defnyddio DAB+ ar lwyfannau bach gynyddu'r nifer sy'n defnyddio dyfeisiau DAB+. Rydyn ni'n credu y bydd bwriad y BBC i lansio gorsafoedd DAB+ yn cefnogi'r datblygiadau hyn.

Ar ben hynny, bydd ein cynigion yn cefnogi'r broses o drawsnewid radio'r DU yn ddigidol. Bydd cynulleidfaoedd yn cael eu hannog i wrando hefyd drwy BBC Sounds lle mae swyddogaethau gwrando byw ychwanegol (er enghraifft, rhewi a mynd yn ôl, gweld y trac sy'n chwarae) a pharhau â'u teithiau gwrando i ganfod rhagor o benodau a chynnwys mwy perthnasol sydd ar gael ar-alw, mewn profiad gwell a mwy personol.

## 4.4 Ymchwil a gynlluniwyd

Fel rhan o'r broses o gynnal Prawf Budd y Cyhoedd byddwn yn rhoi prawf ar gywirdeb y damcaniaethau hyn drwy amrywiaeth o dechnegau meintiol ac ansoddol. Bydd hyn yn cynnwys:

- Dadansoddiad o ddata cynulleidfaoedd mewnol ac allanol, er enghraifft, data mewnol y BBC, RAJAR, ac ati;

---

[47] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 15
[48] Cytundeb Fframwaith y BBC, Cymal 45

- Bydd modelu'r cynnydd o ran niferoedd gwrando at ddibenion ein dadansoddiad o'r effaith ar y farchnad hefyd yn cyfrannu at ddeall gwerth cyhoeddus cynulleidfaoedd unigol;
- Gwaith ymchwil pwrpasol i'r gynulleidfa, ansoddol a meintiol; a
- Ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Yn ein Prawf Budd y Cyhoedd, byddwn yn nodi ein dadansoddiad a'n hasesiad yn fanwl, gyda thystiolaeth ategol. Lle bo modd, byddwn yn darparu dadansoddiad meintiol i ddangos ein gwerth cyhoeddus. Fodd bynnag, fel y cydnabu'r Cytundeb Fframwaith "bydd angen cynnal asesiadau ansoddol, ac efallai na fydd yn bosibl cymharu'n uniongyrchol ffactorau sy'n ymwneud â gwerth cyhoeddus a ffactorau sy'n ymwneud â risgiau i gystadleuaeth deg ac effeithiol."[49]

[49] Cytundeb Fframwaith y BBC, cymalau 8(2) a 10(4)

# 5. Manylion pellach yr ymgynghoriad

## 5.1 Proses Prawf Budd y Cyhoedd

Mae Prawf Budd y Cyhoedd yn elfen allweddol o system lywodraethu'r BBC, a ddaeth i rym yn y Siarter a'r Cytundeb cyfredol o fis Ebrill 2017.[50]

Mae'r Cytundeb yn rhoi'r cyfrifoldeb, yn y lle cyntaf i Fwrdd y BBC, ar gyfer ystyried effaith rhai newidiadau arfaethedig i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU[51]. Rhaid i'r BBC ystyried a yw unrhyw rai o'r newidiadau arfaethedig yn rhai o bwys.

Ni chaiff y BBC wneud newidiadau o bwys i'w wasanaethau cyhoeddus yn y DU[52] oni bai:

a) Ei fod wedi cynnal Prawf Budd y Cyhoedd;
b) Bod y prawf yn cael ei fodloni; a
c) Bod Ofcom wedi penderfynu y gellir bwrw ymlaen â'r cynnig.[53]

Ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, mae'r Cytundeb yn diffinio'r newid o bwys fel lansio gwasanaeth cyhoeddus newydd, neu unrhyw newid i Wasanaethau Cyhoeddus y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.[54]

Rydyn ni wedi nodi'r broses isod.

### *5.1.1 Rhan y BBC yn y broses*

Byddai lansio gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd ar DAB+ yn golygu creu Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn y DU. Felly, rydyn ni'n cynnal Prawf Budd y Cyhoedd.

#### 5.1.1.1 Ymgynghori ac Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Fel rhan o'r broses, mae'r BBC wedi ymrwymo yn ei Bolisi ar Newidiadau o Bwys i geisio adborth gan bartïon â diddordeb wrth iddo gynnal Prawf Budd y Cyhoedd.[55] Fel y mae Ofcom yn nodi yn ei Fframwaith Gweithredu, mae o fudd i drydydd partïon sicrhau eu bod yn codi pryderon gyda'r BBC pan fyddwn yn cynnal ein Prawf Budd y Cyhoedd a thynnu sylw at broblemau posibl sy'n codi o'r cynigion ar y cam hwn. [56] Bydd hyn yn caniatáu i'r BBC ystyried problemau posibl wrth ddatblygu'r cynigion terfynol.

---

[50] Siarter Frenhinol y BBC (Erthyglau 12, 20, 37, 46 a 63) a'r Cytundeb Fframwaith (Cymalau 7 i 11 ynghylch Gwasanaethau Cyhoeddus y DU ac 16 i 20 ynghylch gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau)
[51] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 20(4)
[52] Mae'r BBC yn cadw ac yn cyhoeddi rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn unol ag Atodlen 1, Rhan 1 o'r Cytundeb Fframwaith.
[53] Cytundeb Fframwaith y BBC, Cymal 7(6)
[54] Cytundeb Fframwaith y BBC, Cymal 7(7)
[55] Policy on material changes to the BBC's public service activities and commercial activities
[56] Assessing the impact of proposed changes to the BBC's public service activities: Ofcom's procedures and guidance, paragraff 4.17

Mae'r BBC yn croesawu'r cyfle i drafod ein cynigion ymhellach gyda rhanddeiliaid sydd â diddordeb. Yn benodol, bydd y BBC yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys darlledwyr masnachol eraill a grwpiau cynulleidfa.

#### 5.1.1.2 Ymchwil a dadansoddi

Er mwyn cyfrannu at Brawf Budd y Cyhoedd, bydd y BBC yn defnyddio data ac ymchwil cynulleidfaoedd, ac yn cynnal ei ddadansoddiad ei hun o'r gwerth cyhoeddus a gynhyrchir gan y cynnig.

Er mwyn asesu graddfa a thebygolrwydd unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, data'r diwydiant, ymchwil cynulleidfa (pan fydd ar gael) a dadansoddiad economaidd.

#### 5.1.1.3 Penderfyniad gan Fwrdd y BBC

I fodloni'r meini prawf a nodir yn y Prawf Budd y Cyhoedd, rhaid i Fwrdd y BBC fod yn fodlon bod y cynllun newydd yn cefnogi cenhadaeth y BBC; ei fod yn hyrwyddo'i ddibenion cyhoeddus; fod y BBC wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw'r newid yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a bod gwerth cyhoeddus y cynllun yn cyfiawnhau unrhyw effaith ar gystadleuaeth. Pan fo Bwrdd y BBC yn pennu bod yr elfennau uchod o'r Prawf Budd y Cyhoedd wedi'u bodloni, bydd y BBC yn cyhoeddi fersiwn heb fod yn gyfrinachol o'r newid arfaethedig ac yn ei gyfeirio at Ofcom. Mae'r BBC yn bwriadu gwneud hynny yn ystod yr haf.

### *5.1.2 Rhan Ofcom yn y broses*

Fel rheoleiddiwr y BBC, Ofcom fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a gaiff newid o bwys fynd rhagddo ai peidio. O fewn 6 wythnos i gyhoeddi'r Prawf Budd y Cyhoedd mae'n rhaid i Ofcom benderfynu a yw'r newid a gynigir gan y BBC yn un o bwys ai peidio. Os bydd Ofcom yn penderfynu bod y newid arfaethedig yn un o bwys, bydd wedyn yn cynnal Asesiad o'r Gystadleuaeth, neu asesiad byrrach, yn cynnwys y camau canlynol:

- Cynnal arolwg o farn rhanddeiliaid;
- Adolygu'r gweithdrefnau mae'r BBC wedi'u dilyn wrth gynnal Prawf Budd y Cyhoedd, gan gynnwys a yw'r BBC wedi ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid allanol;
- Adolygu asesiad y BBC o werth cyhoeddus y newid;
- Asesu effaith niweidiol y newid arfaethedig ar gystadleuaeth; ac
- Asesu a yw gwerth cyhoeddus y newid yn cyfiawnhau unrhyw effaith negyddol ar gystadleuaeth.

Ar ddiwedd Asesiad Cystadleuaeth y BBC, gall Ofcom ddod i bedwar math o benderfyniad:

- Anfon y cynnig neu elfennau o'r cynnig yn ôl i'r BBC i'w hailystyried;
- Caniatáu i'r newid fynd rhagddo;
- Gofyn iddynt wneud addasiadau neu osod amodau cyn bwrw ymlaen â'r newid; neu
- Benderfynu na chaiff y BBC fwrw ymlaen â'r newid arfaethedig.

Os bydd Ofcom yn cynnal asesiad byrrach, gall Ofcom ddod i ddau fath o benderfyniad:

- Anfon y cynnig neu elfennau o'r cynnig yn ôl i'r BBC i'w hailystyried; neu
- Ganiatáu i'r newid fynd rhagddo.

## 5.2 Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ac asesiad o'r Gymraeg

Mae'r Siarter yn mynnu bod y BBC yn gwasanaethu pob cynulleidfa, ac yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU. Hefyd, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da mewn cymdeithas o ran pobl â nodweddion gwarchodedig.

Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen hon yn ymwneud â darparu gwasanaethau cynnwys (gorsafoedd radio'r BBC a BBC Sounds) ac felly nid ydynt yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y gwasanaeth cyhoeddus a nodir uchod. Fodd bynnag, mae'r BBC yn dal yn credu ei bod yn bwysig ystyried effaith ei gynigion ar unrhyw un o'r grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, yn enwedig unrhyw effeithiau niweidiol.

Rydyn ni o'r farn y gall y cynigion hyn gael effaith gadarnhaol ar bob cynulleidfa, a'u bod yn cyd-fynd â chenhadaeth y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa; eu bod wedi'u cynllunio i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gystal gan y BBC ar hyn o bryd; ac na fydd yn golygu bod angen lleihau gwasanaethau eraill i gynulleidfaoedd eraill. Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, rydyn ni'n croesawu barn rhanddeiliaid am y casgliadau hyn.

Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru, ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fel corff cyhoeddus, rhaid i'r BBC gydymffurfio â "Safonau" penodol wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisi, a chyhoeddi dogfennau ymgynghori, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried a cheisio barn ar unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol ar (a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Unwaith eto, nid yw'r Safonau'n berthnasol fel y cyfryw lle mae'r cynigion (fel yma) yn ymwneud â "darlledu", ond o ystyried rhwymedigaethau'r Siarter y sonnir amdanynt uchod a hefyd y gofyniad penodol ar y BBC i gefnogi ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol y DU, rydyn ni hefyd wedi ystyried ystyriaethau'r Gymraeg wrth lunio ein cynigion (gan gynnwys cynigion nad ydynt wedi'u targedu at Gymru yn benodol ond sydd o ddiddordeb ledled y DU). Nid ydym o'r farn bod ein newidiadau arfaethedig a'n penderfyniadau yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg neu beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Maent yn ymwneud â gwasanaethau radio rhwydwaith ac nid ydynt yn golygu dargyfeirio adnoddau o'n gwasanaethau Cymraeg. Nid ydym chwaith yn credu bod ffyrdd y gellid ffurfio ein penderfyniadau a'n cynigion i gael, neu gynyddu, effaith gadarnhaol, neu beidio â chael effeithiau niweidiol na lleihau unrhyw effeithiau niweidiol.

Rydyn ni'n croesawu barn rhanddeiliaid.

## 5.3 Cwestiynau ymgynghoriad y BBC

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhedeg am chwe wythnos o 14 Chwefror tan 27 Mawrth 2024.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi gwybodaeth am ein bwriad i lansio gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd ar DAB+. Ein bwriad yw rhoi digon o wybodaeth i randdeiliaid i'w galluogi i ymgysylltu'n ystyrlon â ni wrth i ni roi trefn derfynol ar ein cynigion, ac yn y pen draw byddwn yn eu cynnwys mewn Prawf Budd y Cyhoedd. Er bod ansicrwydd mewn ambell le yn parhau ar y cam hwn yn ein proses, rydyn ni o'r farn ein bod wedi darparu cymaint o wybodaeth ag y gallwn ynghylch ein cynlluniau heb gyhoeddi unrhyw wybodaeth a allai fod yn fasnachol sensitif.

Rydyn ni'n ceisio barn yr holl randdeiliaid, yn benodol rhanddeiliaid o'r diwydiant, am ein cynigion ar gyfer gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd ar DAB+, yn bennaf ar y cwestiynau canlynol:

**Cwestiwn 1:** Beth yw eich barn chi am werth cyhoeddus posibl ein cynigion ar gyfer lansio gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd ar DAB+, gan gynnwys i ba raddau y mae ein cynigion yn cyfrannu at genhadaeth y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu rhaglenni unigryw o safon a gwasanaethau sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu?

**Cwestiwn 2:** Beth yw eich barn am y budd i gynulleidfaoedd a fydd yn gwrando ar y gorsafoedd, yn ogystal â'r effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach posibl?

**Cwestiwn 3:** Pa effaith (gadarnhaol neu negyddol) ydych chi'n meddwl y gallai ein cynnig ar gyfer gorsafoedd radio cerddoriaeth newydd ar DAB+ ei chael ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ar orsafoedd radio masnachol sy'n darparu cynnwys cerddoriaeth ar y radio?

**Cwestiwn 4:** A oes unrhyw gamau y gallem eu cymryd, yn eich barn chi, i leihau unrhyw effeithiau negyddol posibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol gymaint ag y bo modd neu i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol posibl?

## 5.4 Sut mae ymateb

Byddem yn ddiolchgar pe gallai ymatebwyr, lle bynnag y bo'n ymarferol bosibl, ymateb i bob cwestiwn yn uniongyrchol.

Os hoffech chi ymateb i'r ymgynghoriad hwn, anfonwch eich ymateb dros e-bost at publicinterest.test@bbc.co.uk.

Cysylltwch â publicinterest.test@bbc.co.uk os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y broses hon, am ein hymgynghoriad, neu os ydych chi'n awyddus i drafod y cynigion hyn ymhellach.

Nodwch yn eich ymateb a ddylai rhywfaint neu'r cyfan o'ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol. Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i lywio ein gwaith ar y Prawf Budd y Cyhoedd yn y dyfodol. Efallai y byddwn yn cyfeirio at ymatebion, un ai yn gyffredinol neu gyfeiriadau penodol, fel rhan o'r Prawf Budd y Cyhoedd y byddwn yn ei gyhoeddi. O ran ymatebion cyfrinachol, efallai y byddwn yn holi ynghylch sut i gynnwys y rhain mewn

Prawf Budd y Cyhoedd lle y bo'n berthnasol, yn ogystal â holi a gawn ni ddarparu'r rhain i Ofcom ar sail gyfrinachol ai peidio, i helpu Ofcom gyda'i asesiad perthnasedd.

Ni allwn ystyried sylwadau sy'n ymwneud â materion ehangach fel ffi'r drwydded neu sylwadau sy'n ymwneud â rhaglenni a chynnwys y BBC.